Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
North Wales Wildlife Trust

WaREN
Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru
Wales Resilient Ecological Network

WaREN II

# Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru

**Pecyn Adnoddau Rhywogaethau Ymledol:**
Cefnogi Gweithredu Gwirfoddol yng Nghymru



Jessica. F. Minett., Max. D. Jones., Gareth. Holland-Jones., a Tomos. S. Jones | 2023

## Manylion cyhoeddi

Dylid dyfynnu'r ddogfen hon fel: Minett, J.F., Jones, M.D., Holland-Jones, G., a Jones, T.S. (2023) **Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru. Pecyn Adnoddau Rhywogaethau Ymledol: Cefnogi Gweithredu Gwirfoddol yng Nghymru.** Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Mae enw'r ffotograffydd perthnasol neu ffynhonnell y ffotograff yn cael ei gydnabod o dan bob llun.

**Clawr blaen:** ffotograff gan Jessica Minett – YNDGC/YNGC

Ysgrifennwyd a chynhyrchwyd y pecyn adnoddau hwn gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (YNGC) ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru (YNDGC) ar gyfer prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN II). Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â 45 o Ymddiriedolaethau Natur eraill fel rhan o'r sefydliad gwirfoddol mwyaf yn y DU sy'n ymroddedig i warchod holl gynefinoedd a rhywogaethau'r DU, boed yng nghefn gwlad, mewn trefi neu yn y môr.

Mae prosiect WaREN II wedi derbyn cyllid drwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 – Cynllun Rheoli Cynaliadwy sy'n cael ei gyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

**Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:**
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
**European Agricultural Fund for Rural Development:**
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Am y pecyn adnoddau hwn

## Ar gyfer pwy mae'r pecyn adnoddau yma?

Nod y pecyn adnoddau yma yw cefnogi gweithredu gwirfoddol a'ch helpu chi i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yng Nghymru. Dylai'r pecyn adnoddau yma gynnwys yr holl adnoddau sydd arnoch eu hangen, gan gynnwys gwybodaeth am reolaeth arfer gorau, cynllunio prosiectau, bioddiogelwch, a chodi ymwybyddiaeth.

## Sut mae ei ddefnyddio?

Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi helpu i fynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan rywogaethau ymledol. Mae'r pecyn adnoddau yma'n dadansoddi'r wybodaeth hon i'ch helpu chi i ddiogelu ein hamgylchedd.

### Beth mae'n ei gynnwys?

- Gwybodaeth am beth yw rhywogaethau ymledol a pham eu bod yn peri pryder
- Manylion am sut i adnabod a chofnodi rhywogaethau ymledol yng Nghymru
- Canllawiau rheoli
- Manylion am sut i gymryd rhan, gwirfoddoli, a helpu i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol drwy Grwpiau Gweithredu Lleol
- Cyflwyniad i fioddiogelwch a sut gallwch chi helpu i atal lledaeniad rhywogaethau ymledol
- Dolenni ac adnoddau defnyddiol i'n helpu ni i godi ymwybyddiaeth

## Beth yw Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru?

Mae prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN) yn cael ei gyllido gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru i hyrwyddo bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol. Rydym yn cyflawni hyn drwy ddatblygu dull cydweithredol a chynaliadwy o fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol ledled Cymru.

Mae WaREN yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth partneriaid ein prosiect; edrychwch ar ein tudalen we i weld ein holl bartneriaid.

## Pwy yw'r Ymddiriedolaethau Natur?

Fel mudiad ar lawr gwlad, mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn credu bod arnom ni angen byd natur, a bod byd natur ein hangen ni. Gyda'n gilydd, gydag aelodau a gwirfoddolwyr, rydyn ni'n gweithio i wneud ein hardal leol yn wyllt a gwneud byd natur yn rhan o fywyd pawb. Mae cyfle i ddysgu mwy am waith yr Ymddiriedolaethau Natur yng Nghymru a sut gallwch chi helpu bywyd gwyllt yn eich ardal chi yma!



# Contents


Adnabod a Chofnodi Rhywogaethau Ymledol — Tudalen 05-09

Rheolaeth — Tudalen 10-13

Cynllunio Prosiectau — Tudalen 14-34

Bioddiogelwch — Tudalen 35-49

Codi Ymwybyddiaeth — Tudalen 50-53


## Byrfoddau (Saesneg)

| | |
|---|---|
| BIS | Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth |
| CABI | Y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Amaethyddiaeth a Biowyddoniaeth |
| COSHH | Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| eDNA | DNA amgylcheddol |
| GB | Prydain Fawr |
| GB NNSS | Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anfrodorol Prydain Fawr |
| IAS | Rhywogaethau Estron Ymledol |
| IPBES | Llwyfan Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystem |
| INNS | Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol |
| GGLI (LAG) | Grŵp Gweithredu Lleol |
| LERC | Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Leol |
| RhBC (NBN) | Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol |
| NOBANIS | Rhwydwaith Ewropeaidd ar gyfer Rhywogaethau Estron Ymledol |
| CNC (NRW) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| YNGC | Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru |
| PAP | Cynllun Gweithredu Llwybr |
| PCA | Property Care Association |
| PPE | Cyfarpar Diogelu Personol |
| SEWBReC | Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru |
| WaREN | Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru |
| PBC (WBP) | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| YNDGC | Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru |
| WWBIC | Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru |




Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*)

# Adnabod a Chofnodi Rhywogaethau Ymledol



Cimwch afon America (*Pacifastacus leniusculus*)

# Beth yw rhywogaethau ymledol?

**Mae rhywogaethau ymledol yn rhywogaethau anfrodrol sydd wedi'u cyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol gan bobl. Yn bwysig, mae eu lledaeniad yn bygwth amrywiaeth fiolegol frodorol a gall achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd, a'r ffordd rydyn ni'n byw.**

Cyfeirir at rywogaethau anfrodorol ymledol (INNS) hefyd fel Rhywogaethau Estron Ymledol (IAS). Yma rydyn ni'n cyfeirio atynt fel **rhywogaethau ymledol.**


## Pam ei fod yn bwysig?

Ar hyn o bryd rydyn ni'n wynebu argyfyngau natur a hinsawdd byd-eang. Mae rhywogaethau ymledol wedi'u nodi fel un o'r pum prif sbardun ar gyfer colli bioamrywiaeth yn fyd-eang gan y Llwyfan Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau (IPBES)[1].


Gallant gael llawer o effeithiau negyddol ar ein hamgylchedd. Er enghraifft, gallant gystadlu am adnoddau fel golau a dŵr, ysglyfaethu ar rywogaethau brodorol, cario clefydau newydd, a chroesi gyda rhywogaethau brodorol.

Mae effaith economaidd y rhywogaethau ymledol wedi bod yn cynyddu'n gyflym yn y DU. Ers 1976, amcangyfrifir bod rhywogaethau ymledol wedi costio rhwng £5.4 a £13.7 biliwn i economi'r DU, tua £122 miliwn y flwyddyn yn fras! Mae'r gost hon yn debygol o gynyddu wrth i fwy o rywogaethau ymledol gael eu cyflwyno[2].

Dim ond nifer bach o rywogaethau anfrodorol sy'n mynd ymlaen i fod yn ymledol, gan fygwth ein bioamrywiaeth frodorol a'n gwytnwch ecolegol. Efallai na fydd rhywogaethau sy'n achosi problemau mewn un ardal yn broblem mewn ardal arall.




Ers 1976, amcangyfrifir bod rhywogaethau ymledol wedi costio rhwng



**£5.4** a **£13.7 biliwn**

i economi'r DU, tua **£122 miliwn** y flwyddyn yn fras!

---

1 IPBES: Adroddiad asesiad byd-eang ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau
2 Cuthbert *et al.* (2021) Economic costs of biological invasions in the United Kingdom


Ond drwy fynd i'r afael â'r rhywogaethau hyn, gallwn helpu i wella gallu ein hecosystemau i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a ffactorau eraill sy'n achosi straen[3]. I gael gwybod mwy am rywogaethau ymledol yng Nghymru, edrychwch ar wefan WaREN.

## Sut gallwch chi helpu?

Mae llawer o bethau y gallwn ni i gyd eu gwneud i helpu i fynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan rywogaethau ymledol:


| | |
|---|---|
| 1. Adnabod a chofnodi chofnodi rhywogaethau ymledol - dod yn ddinesydd wyddonydd! | Tudalen 05 |
| 2. Rheoli rhywogaethau ymledol | Tudalen 10 |
| 3. Gwirfoddoli a helpu i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol drwy Grŵp Gweithredu Lleol | Tudalen 14 |
| 4. Bioddiogelwch - helpu i atal lledaeniad rhywogaethau ymledol | Tudalen 35 |
| 5. Helpu ni i godi ymwybyddiaeth | Tudalen 50 |




Mapiau gwres pidyn-y-gog Americanaidd (*Lysichiton americanus*), pluen parot (*Myriophyllum aquaticum*), a chimwch afon signal (*Pacifastacus leniusulus*) gan ddefnyddio data NBN o 2010-22.

3 Lopez *et al.*, (2022) Global environmental changes more frequently offset than intensify detrimental effects of biological invasions

## Diogelu Natur Nawr: Atal Lledaeniad Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu siarter i uno rhanddeiliaid a phartneriaid sydd â dealltwriaeth gyffredin i gefnogi rheolaeth gynaliadwy ar rywogaethau ymledol. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau, grwpiau a / neu fusnesau i ddangos eu hymrwymiad i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yng Nghymru. Darganfyddwch mwy yma.

## Rhywogaethau Blaenoriaeth yng Nghymru

Gellir rhannu'r rhestr Rhywogaethau Ymledol Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu yng Nghymru yn dri chategori gweithredu:

| | |
|---|---|
| **Atal** | Rhywogaethau nad ydynt i'w cael ar hyn o bryd yng Nghymru ond sy'n debygol o gyrraedd. |
| **Rheoli** | Rhywogaethau sy'n bresennol neu'n bresennol yn ddiweddar mewn niferoedd isel neu boblogaethau a rhywogaethau ynysig lle mae angen eu dileu a lle mae'n bosibl atal sefydlu eang. Mae hyn yn cynnwys canfod rhywogaethau yn gynnar ac ymateb yn gyflym. |
| **Rheolaeth Tymor Hir** | Rhywogaethau sydd wedi sefydlu yng Nghymru a lle byddai rheolaeth hirdymor yn fuddiol ac yn ymarferol. |

Dewisir Rhywogaethau Ymledol Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu yng Nghymru ar sail sganio'r gorwel, dadansoddi risg (asesu a rheoli risg), ac ymgynghori â Grŵp INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (PBC), Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr (GB NNSS), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhywogaethau wedi'u cynnwys ar y rhestr hon gan eu bod yn:

- Rhywogaeth blaenoriaeth ym Mhrydain Fawr
- Rhywogaeth Estron Ymledol o Bryder i'r Undeb
- Neu rywogaeth a ystyrir yn flaenoriaeth genedlaethol i Gymru.

Mae gennym hefyd Rywogaethau Ymledol Morol Blaenoriaeth; mae'r rhywogaethau hyn wedi'u rhestru a'u categoreiddio (Risg Uchel, Canolig ac Isel) yn seiliedig ar eu heffeithiau posibl a chamau rheoli addas.

Cliciwch yma i ddod o hyd i wybodaeth am yr holl Rywogaethau Ymledol Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu yng Nghymru (2018) ar hyn o bryd.

Gallwch ddod o hyd i daflenni adnabod ac adnoddau adnabod ychwanegol ar gyfer rhywogaethau ymledol eraill ar wefan GB NNSS.

### Portholau gwybodaeth:

- Porthol gwybodaeth GB NNSS – gwybodaeth fanwl, gan gynnwys adnabod, effeithiau a dulliau rheoli ar gyfer mwy na 300 o rywogaethau ymledol ym Mhrydain Fawr
- Porthol INNS Cymru (NBN) – mapiau a chofnodion am achosion
- Porthol Gwybodaeth Iechyd Planhigion y DU (Defra) – hwb ar-lein ar gyfer gwybodaeth, data ac adnoddau iechyd planhigion
- Y Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Amaethyddiaeth a Biowyddoniaeth (CABI) – Compendiwm o Rywogaethau Ymledol – sylw manwl i rywogaethau ymledol sy'n bygwth bywoliaeth a'r amgylchedd yn fyd-eang

### Orielau lluniau:

- Oriel luniau GB NNSS
- Cronfa Luniau Rhywogaethau Estron NOBANIS



Wiwer lwyd (*Sciurus carolinensis*)

## Rhybuddion Rhywogaethau

### Beth yw Rhybudd Rhywogaeth?

Mae Rhybuddion Rhywogaethau yn rhan allweddol o'r rhybudd cynnar a'r ymateb cyflym i ymlediad newydd. Maent yn cael eu defnyddio'n aml i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau penodol, hysbysu'r cyhoedd am y camau gweithredu y gall fod eu hangen, ac annog rhoi gwybod am rywogaethau a welwyd.

I weld y Rhywogaethau Rhybudd presennol a lle i gofnodi eu gweld, ewch i wefan GB NNSS.

## Cofnodi

Mae cofnodi rhywogaethau ymledol a welwyd yn hanfodol er mwyn ein galluogi ni i gydlynu'r rheolaeth a mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yn strategol.

Yng Nghymru mae pedwar Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERCs):

- Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBReC)
- Canolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru (WWBIC)
- Y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth (BIS) ar gyfer Powys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cofnod (Gogledd Cymru)

LOCAL ENVIRONMENTAL RECORDS CENTRES **WALES**
CANOLFANNAU COFNODION AMGYLCHEDDOL LLEOL **CYMRU**

Gallwch gofnodi unrhyw rywogaethau ymledol a welwyd yn uniongyrchol i'ch LERC lleol neu ddefnyddio amrywiaeth o apiau ac adnoddau ar-lein, fel iRecord neu ap LERC Cymru. Mae'n arbennig o bwysig rhoi gwybod am Rywogaethau Rhybudd.

### Cofnodi rheolaeth

Mae prosiect partneriaeth yn datblygu adnodd ar hyn o bryd o'r enw **Mapiwr INNS** ar gyfer cofnodi rhywogaethau ymledol ar draws Prydain Fawr. Yn bwysig, bydd hyn yn eich galluogi chi i gofnodi eich ymdrechion rheoli. Mwy o wybodaeth yma.



# Rheoli



© Jess Minett - WaREN

Rheolaeth

# Rheoli rhywogaethau ymledol

**Cyn rheoli rhywogaeth ymledol, mae'n bwysig iawn meddwl am y tri phwynt allweddol canlynol:**

## Adnabod eich rhywogaeth

Beth yw nodweddion, fel cylch bywyd a dulliau gwasgaru, y rhywogaeth ymledol o'ch dewis?

## Adnabod eich safle

Beth yw nodweddion y cynefin neu'r amgylchedd – argaeledd adnoddau (e.e., golau, dŵr, ac ati), lefel y tarfu, a'r ffynonellau o ymlediad i'r ardal?

## Adnabod eich cymydog

Pwy sy'n byw ger eich safle? Pwy allai fod â diddordeb yn yr hyn rydych chi'n ei wneud? Pa randdeiliaid yn eich cymuned allai gefnogi eich gwaith?

Gall eich gweithredoedd rheoli gael eu heffeithio a'u newid gan y rhywogaeth, y safle a'ch cymdogion.

## Rhywogaethau ymledol:

Mae rhywogaethau ymledol yn rhywogaethau anfrodorol sydd wedi'u cyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol gan bobl. Maent wedi'u nodi fel un o'r pum prif sbardun ar gyfer colli bioamrywiaeth yn fyd-eang gan IPBES[1]. Gall eu hymlediad achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi a'n hiechyd.

Cyfeirir at rywogaethau anfrodorol ymledol (INNS) hefyd fel Rhywogaethau Estron Ymledol (IAS). Yma rydym yn cyfeirio atynt fel rhywogaethau ymledol. Mwy o wybodaeth ar gael ar ein tudalen we.



Cragen las resog (*Dreissena polymorpha*)



Dail-ceiniog arnofiol (*Hydrocotyle ranunculoides*)

1 IPBES: Adroddiad asesiad byd-eang ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau

## Rheolaeth arfer da

Yma rydym wedi cysylltu â chanllawiau rheoli arfer da ar gyfer yr holl Rywogaethau Ymledol Blaenoriaeth ar gyfer gweithredu yng Nghymru a Rhywogaethau 'Cynllun Wrth Gefn' Cymru.

### Rhywogaethau'r 'Cynllun Wrth Gefn'

Mae'r rhain wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru fel rhywogaethau ymledol nad ydynt yn bresennol nac wedi sefydlu eto yng Nghymru, ond y mae eu sefydlu'n cael ei ystyried yn risg uchel a gallai gael effeithiau mawr. Mae rhai rhywogaethau wedi'u cynnwys mewn cynlluniau wrth gefn gan fod gan y DU rwymedigaeth statudol i'w dileu, tra bo eraill yn cael eu hystyried yn flaenoriaethau yng Nghymru. Bydd y gwaith o reoli'r rhywogaethau hyn yn cael ei wneud gan randdeiliaid penodol a dynodedig.

Mae rhywogaethau'r 'cynllun wrth gefn' wedi'u rhannu'n bum grŵp, ac mae cynlluniau wrth gefn cyffredinol sy'n amlinellu beth fyddai'n digwydd yn dilyn cofnod am un o'r rhywogaethau hyn yng Nghymru wedi'u cynhyrchu.

### Rheoli rhywogaethau ymledol eraill

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth rheoli arfer da am rywogaethau nad ydynt ar y rhestr Rhywogaethau Ymledol Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu yng Nghymru gan y sefydliadau isod:

- GB NNSS
- CABI
- Rhywogaethau Ymledol Gogledd Iwerddon

### Cynlluniau Gweithredu Llwybrau

Mae Cynlluniau Gweithredu Llwybrau (PAPs) yn gynlluniau sy'n ceisio atal neu reoli'r risg o lwybrau cyflwyno penodol (h.y., ffynhonnell) drwy gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o rywogaethau ymledol, gweithredu rheolaeth briodol ar y ffin, a thrwy leihau llygru nwyddau, cyfarpar, offer a cherbydau.

Mae chwe PAP ar hyn o bryd:


- Baeddu cychod: gan gynnwys cychod hamdden
- 'Dianc' garddwriaethol
- Halogyddion planhigion addurnol gerddi
- Dŵr balast
- Dianc ar offer pysgota
- Dianc o sŵ neu ardd fotanegol

### Fideos rheoli arfer gorau

Fideos allanol o reoli rhywogaethau ymledol:

- Sianel YouTube y Property Care Association (PCA)

Rheolaeth



© GBNNSS

# Trwyddedu

Mae angen trwyddedau i gyflawni gweithgareddau i reoli rhai rhywogaethau ymledol.

## Trwyddedau ar gyfer rheoli rhywogaethau o bryder arbennig

O dan Orchymyn Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol (Gorfodi a Thrwyddedu) 2019, mae'n drosedd mewnforio, cadw, bridio, cludo (ac eithrio ar gyfer dileu), defnyddio neu gyfnewid, gwerthu, tyfu, meithrin neu ganiatáu i atgynhyrchu, caniatáu i ddianc neu ryddhau i'r amgylchedd unrhyw anifeiliaid neu blanhigion sydd wedi'u rhestru fel rhywogaethau ymledol o bryder arbennig. Mae'n bosibl y bydd angen trwydded i gyflawni'r gweithgareddau hyn yng Nghymru. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar reoliadau rhywogaethau anfrodorol ymledol CNC.

## Pan na fydd angen trwydded efallai ar gyfer rhywogaethau o bryder arbennig sydd wedi ymledu'n eang

Nid oes angen trwydded bob amser ar gyfer rheolaeth gyffredinol (gan gynnwys dileu) ar rywogaethau o bryder arbennig sydd wedi ymledu'n eang, fel Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*). Er enghraifft, fel rhan o ymdrechion cadwraeth i reoli rhywogaeth, gallwch wirio a chael rhagor o wybodaeth a gwneud cais am drwydded mesurau rheoli ar wefan CNC.

## Trwyddedau ar gyfer rhywogaethau sy'n dod o dan Adran 14 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Mae rhyddhau unrhyw anifail neu aderyn, neu ganiatáu i unrhyw anifail neu aderyn ddianc, pan nad yw'n byw yn neu'n ymwelydd rheolaidd â Phrydain Fawr mewn cyflwr gwyllt, neu os yw wedi'i gynnwys yn Rhan 1A neu 1B Atodlen 9, yn drosedd o dan Adran 14 y Ddeddf. Mae hefyd yn drosedd plannu neu achosi i dyfu fel arall unrhyw blanhigyn sydd wedi'i restru yn Rhan II Atodlen 9 y Ddeddf. Dim ond o dan rai amgylchiadau cyfyngedig y gellir trwyddedu'r gweithgareddau hyn, e.e., at ddibenion gwyddonol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy gysylltu â Thîm Trwyddedu Rhywogaethau CNC: specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk

## Caniatadau eraill

Efallai y bydd angen caniatâd ychwanegol ar rai rhywogaethau o bryder arbennig, fel:

- Hwyaden goch (*Oxyura jamaicensis*) – i ladd neu gymryd hwyaden goch neu i gymryd neu ddinistrio ei nyth neu ei hwyau er mwyn gwarchod adar gwyllt, mae angen Trwydded Gyffredinol 005 gan CNC. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan CNC.
- Cimwch afon signal (*Pacifastacus leniusculus*) – mae angen awdurdodiad trapio ac efallai y bydd angen trwydded rheoli rhywogaethau ymledol hefyd, a gellir cael y ddau gan CNC.

# Hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol

Am enghreifftiau o hyfforddiant ac adnoddau rheoli ychwanegol, cliciwch yma.



Hwyaden goch (*Oxyura jamaicensis*)

# Cynllunio Prosiectau



© Zoe Richards Ramblers Cymru



© Wye Valley AONB

# Cynllunio Prosiectau

## Grwpiau Gweithredu Lleol

### Beth yw Grŵp Gweithredu Lleol (GGLl) a pham maen nhw mor bwysig?

Fel rheol mae GGLl (neu LAG) yn grŵp cymunedol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr sydd wedi'i sefydlu gyda diddordeb cyffredin, fel rhywogaethau ymledol. Mae GGLl yn aml yn gwneud gwaith ar lawr gwlad ac yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli† rhywogaethau ymledol yn eu hardal. Mae GGLl yn chwarae rhan hynod bwysig wrth fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol drwy ymwneud yn uniongyrchol â rheoli, meithrin perthnasoedd a phartneriaethau â pherchnogion tir lleol, grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr, a thrwy godi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol.

Wrth i rywogaethau ymledol barhau i ledaenu, mae'r angen am GGLl yn cynyddu. Gyda'r GGLl, mae dull Cymreig cydweithredol o fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yn bosibl!

Nid oes unrhyw ymrwymiad yn rhy fach! Er enghraifft, gallech chi ddechrau drwy gael gwared ar blanhigion ymledol, e.e. rhywogaethau Creigafal o'ch gardd neu dynnu Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*) o ardal yn eich cymuned leol. Mae pob ymdrech i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol ar raddfa fechan mewn cymuned leol yn ychwanegu at ymdrech genedlaethol a bydd yn helpu i warchod bioamrywiaeth ac ecosystemau brodorol ledled Cymru. Darganfyddwch eich GGLl agosaf ar ein gwefan. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn sefydlu GGLl yn eich ardal, mae mwy o wybodaeth ar gael yn y rhan hwn o'r pecyn adnoddau.

## Rhywogaethau ymledol:

Mae rhywogaethau ymledol yn rhywogaethau anfrodorol sydd wedi'u cyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol gan bobl. Maent wedi'u nodi fel un o'r pum prif sbardun ar gyfer colli bioamrywiaeth yn fyd-eang gan IPBES[1]. Gall eu hymlediad achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi a'n hiechyd.

Cyfeirir at rywogaethau anfrodorol ymledol (INNS) hefyd fel Rhywogaethau Estron Ymledol (IAS). Yma rydym yn cyfeirio atynt fel rhywogaethau ymledol. Mwy o wybodaeth ar gael ar ein tudalen we.



Creigafal *(Cotoneaster species)* © GB NNSS

1 IPBES: Adroddiad asesiad byd-eang ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau

† Yma, mae rheolaeth yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at fonitro, rheoli a/neu ddileu rhywogaeth ymledol.

## Sut i sefydlu Grŵp Gweithredu Lleol neu ddatblygu prosiect

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth, templedi ac awgrymiadau ar gyfer sefydlu GGLI newydd neu brosiect rhywogaethau ymledol yn strategol ac yn effeithiol. Er bod y canllaw hwn yn cynnwys llawer o wybodaeth, ni fydd popeth wedi'i gynnwys nac yn ofynnol, yn dibynnu ar eich grŵp.

Rhestr wirio newydd ar gyfer sefydlu GGLI:

| | |
|---|---|
| ☐ | Penderfynu ar enw |
| ☐ | Penderfynu ar ddiben a phennu eich nodau a'ch amcanion |
| ☐ | Llunio cynllun gweithredu strategol |
| ☐ | Llunio ddogfennau llywodraethu ar gyfer eich grŵp |
| ☐ | Hysbysebu eich grŵp a dod o hyd i wirfoddolwyr |
| ☐ | Neilltuo eich pwyllgor a swyddogaethau ar gyfer aelodau / gwirfoddolwyr |
| ☐ | Cael yswiriant |
| ☐ | Oes angen cyllid ar eich grŵp? |
| ☐ | Asesu iechyd a diogelwch a chwblhau asesiadau risg ar gyfer pob digwyddiad neu weithgaredd |
| ☐ | Hysbysebu eich digwyddiadau neu weithgareddau, gan godi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol a'r problemau maent yn eu hachosi |
| ☐ | Sicrhau bod gennych chi gofnodion cyfredol am unrhyw broblemau meddygol a chysylltiadau brys ar gyfer yr holl wirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau |
| ☐ | Trefnu cyfarfodydd i annog pobl i gymryd rhan a rhoi adborth ar y canlyniadau |
| ☐ | Sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu hysgogi a'u cynnwys (yn enwedig ymgysylltu â phobl dros y gaeaf pan fydd y gweithgareddau rheoli wedi dod i ben) |
| ☐ | Sicrhau bod gan bawb y PPE a'r offer angenrheidiol |
| ☐ | Oes angen hyfforddiant ar unrhyw un yn eich grŵp – cymorth cyntaf, rheolaeth, ac ati |
| ☐ | Siarad â'ch gwirfoddolwyr am bwysigrwydd bioddiogelwch da a gwneud yn siŵr bod pawb yn deall pam ei fod yn hanfodol wrth ymdrin â rhywogaethau ymledol |

Mae mwy o wybodaeth am bob eitem ar y rhestr wirio yn yr adrannau canlynol.

## Enw a phwyllgor

Mae eich enw yn bwysig gan y bydd yn galluogi i chi hyrwyddo eich grŵp a gall fod yn hanfodol ar gyfer yswiriant a dogfennau cyfreithiol eraill. Gallwch enwi eich grŵp mewn sawl ffordd. Gall fod yn fuddiol cynnwys eich lleoliad neu rywogaeth o ddiddordeb, er enghraifft:

- Ffrindiau [Lleoliad]
- Grŵp Gweithredu Lleol [Lleoliad]
- Grŵp Rhywogaethau Ymledol [Lleoliad]
- Grŵp Gweithredu Lleol [Lleoliad] [Rhywogaethau]

Mae hefyd yn bwysig ystyried swyddogaethau pwyllgor a rheoli eich grŵp. Ar y dechrau, efallai mai dim ond ychydig o aelodau pwyllgor fydd arnoch eu hangen, ond wrth i'ch grŵp dyfu, efallai y byddwch eisiau ychwanegu at y swyddogaethau pwyllgor safonol. Gallech hefyd ystyried swyddogaethau ar gyfer y canlynol:

- **Swyddog Iechyd a Diogelwch** – y person â gofal am sicrhau bod canllawiau iechyd a diogelwch yn cael eu dilyn, a bod asesiadau risg yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad.
- **Rheolwr cronfa ddata** – rhywun sy'n gyfrifol am gasglu a diweddaru cronfa ddata o rywogaethau ymledol a chamau rheoli. Gall hyn fod yn fuddiol os ydych yn bwriadu arolygu neu fapio rhywogaethau neu wneud gwaith rheoli.
- **Swyddog bioddiogelwch** – rhywun sy'n gyfrifol am sicrhau bod protocolau a chanllawiau bioddiogelwch yn cael eu dilyn ar gyfer unrhyw weithgaredd neu ddigwyddiad.

## Pwrpas, nodau ac amcanion

Mae'n bwysig meddwl am **ddiben** eich grŵp (y rheswm pam roeddech eisiau sefydlu GGLI), yr ardal neu'r rhanbarth y bydd eich grŵp yn ei gynnwys (bach a lleol yn erbyn dalgylch cyfan), ac amserlen ar gyfer cyfarfodydd.

Enghreifftiau o rai dibenion cyffredin:

- **Mynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yn** [ardal]
- **Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol yn** [ardal]
- **Datblygu a rhannu gwybodaeth / profiad o reoli arfer da**
- **Annog cofnodi a rhoi gwybod am rywogaethau ymledol**
- **Rhoi cyngor ar reoli rhywogaethau ymledol**
- **Annog gweithredu arferion bioddiogelwch da**

Y cam nesaf yw pennu **amcanion** eich grŵp (targedau eang rydych eisiau eu cyflawni) a'i **nodau** (sut bydd eich GGLl yn cyflawni ei amcanion). Gellir rhannu'r nodau ymhellach yn dasgau; gellir defnyddio'r tasgau hyn fel cerrig milltir i fonitro cynnydd.

Er mwyn sicrhau bod eich nodau yn gyraeddadwy, rydym yn argymell eich bod yn dilyn y fethodoleg SMART[4] (neu PMCCC). Dylech sicrhau bod eich nodau fel a ganlyn:

P **Penodol**

M **Mesuradwy**

C **Cyraeddadwy**

C **Canolbwyntio ar ganlyniadau** (realistig a pherthnasol), a

C **Cyfyngedig gan amser**

Enghreifftiau o rai amcanion a nodau cyffredin:

Dileu [rhywogaeth e.e., Jac y neidiwr] o [ardal] mewn [nifer] o flynyddoedd drwy fapio presenoldeb [rhywogaeth] yn flynyddol, nodi safleoedd blaenoriaeth ar gyfer rheoli, paratoi cynllun strategol, a gweithredu camau rheoli

Codi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol drwy fynychu a threfnu digwyddiadau, cynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth, ac annog cyfranogiad cymunedol (gan gynnwys perchnogion tir a gwirfoddolwyr)

Rhoi cyngor ar rywogaethau ymledol drwy gynhyrchu a dosbarthu taflenni a phosteri, darparu hyfforddiant, a mynychu neu drefnu digwyddiadau

Hyrwyddo rheolaeth arfer da drwy nodi a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am y technegau gorau sydd ar gael, dulliau amgen a thrwy gysylltu â grwpiau eraill sy'n gweithio ar yr un rhywogaeth neu faterion.



4 Gosod Nodau: SMART (PDF)

## Cynllun gweithredu strategol

Er mwyn cynyddu eich effaith a'ch effeithiolrwydd mae'n bwysig datblygu cynllun gweithredu strategol. Dylai cynllun gweithredu strategol da gynnwys y canlynol:

- Llinellau amser a cherrig milltir
- Cyllideb ac amser, e.e., nifer y dyddiau gweithwyr neu gost fesul carreg filltir
- Monitro rheolaidd i wirio bod y prosiect ar y trywydd iawn
- Y gallu a'r hyblygrwydd i addasu cynlluniau neu linellau amser yn ôl yr angen
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Sicrhau bod cofnodion a data ar gael i grwpiau eraill sydd â diddordeb

Dylai eich cynllun gweithredu strategol gynnwys eich amcanion, eich nodau, y tasgau sydd angen eu cyflawni, a'ch blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, fel:

- Cynnal arolwg
- Cael gwared yn ymarferol ar rywogaethau ymledol
- Monitro
- Ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Hyfforddi gwirfoddolwyr

Gallwch ddod o hyd i dempled o gynllun gweithredu strategol yma.

### Blaenoriaethu camau gweithredu:

Dylid rhoi blaenoriaeth i **atal;** os nad yw hyn yn bosibl, dylid rhoi blaenoriaeth i **ganfod** (drwy fonitro), ac wedyn **dileu** a **rheoli**[5].

Gall blaenoriaethu prosiectau fod yn heriol gan fod angen ystyried llawer o ffactorau yn aml. Gellir archwilio prosiectau a'u rhestru mewn pedwar categori i helpu i dynnu sylw at flaenoriaeth a phenderfynu ar ble i ganolbwyntio ymdrechion. Fodd bynnag, efallai y bydd angen gwybodaeth ymlaen llaw am bresenoldeb rhywogaethau; felly, bydd angen arolygon fel sail i ddatblygu prosiect.





5 Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (2006) Global Biodiversity Outlook 2

© SurreyHillsPhotography

**Categori 1: Graddfa bresennol a phosibl y rhywogaethau ymledol ar y safle neu'n agos ato:**

| | |
|---|---|
| 1 | Rhywogaethau nad ydynt yn bresennol eto ond sy'n bresennol ar safle gerllaw, rhaid rhoi sylw arbennig i rywogaethau ymledol hysbys mewn mannau eraill yn y rhanbarth |
| 2 | Rhywogaethau sy'n bresennol ar y safle fel poblogaeth newydd neu allelfennau o blâu mwy, yn enwedig os ydynt yn ehangu'n gyflym |
| 3 | Rhywogaethau sy'n bresennol ar y safle mewn plâu mawr sy'n parhau i ehangu |
| 4 | Rhywogaethau sy'n bresennol ar y safle mewn plâu mawr nad ydynt yn ehangu |

**Categori 2: Effeithiau cyfredol a phosibl y rhywogaethau ymledol:**

| | |
|---|---|
| 1 | Rhywogaethau sy'n newid prosesau ecosystem, fel amlder tân, gwaddodi, neu gylch maethynnau |
| 2 | Rhywogaethau sy'n lladd, yn parasitio, yn croesrywio neu'n cael y gorau ar frodorion neu'n rheoli cymuned |
| 3 | Rhywogaethau sy'n atal neu'n lleihau recriwtio neu adfywio, yn lleihau neu'n dileu adnoddau, neu'n hybu poblogaethau o rywogaethau ymledol |
| 4 | Rhywogaethau sy'n goddiweddyd neu'n eithrio brodorion yn dilyn trychinebau naturiol |

**Categori 3: Gwerth y cynefin / ardal y mae'r rhywogaeth ymledol wedi'i lygru neu y gallai ei lygru:**

| | |
|---|---|
| 1 | Rhywogaethau sy'n effeithio ar y cynefin neu'r ardal o werth mwyaf (gan gynnwys ardaloedd o rywogaethau prin neu o werth mawr neu adnoddau hanfodol) |
| 2 | Rhywogaethau sy'n effeithio ar gynefinoedd o werth llai (gan gynnwys ardaloedd sydd eisoes wedi'u heffeithio gan rywogaethau ymledol eraill) |

**Categori 4: Yr anhawster o reoli rhywogaethau ymledol:**

| | |
|---|---|
| 1 | Rhywogaethau sy'n debygol o gael eu dileu neu eu rheoli gyda'r dechnoleg a'r adnoddau sydd ar gael a fydd yn cael eu disodli gan rywogaethau brodorol |
| 2 | Rhywogaethau sy'n debygol o gael eu rheoli ond nid eu disodli gan rywogaethau brodorol heb raglen adfer |
| 3 | Rhywogaethau sy'n anodd eu rheoli a / neu y bydd eu rheolaeth yn debygol o gael effeithiau negyddol ar rywogaethau brodorol eraill |
| 4 | Rhywogaethau sy'n annhebygol o gael eu rheoli a rhywogaethau â phoblogaethau sy'n lleihau, y rhai sy'n sefydlu mewn ardaloedd y mae tarfu arnynt yn unig |

Mae'r pedwar categori uchod yn awgrymiadau ar gyfer sut dylid graddio blaenoriaeth ar **raddfa genedlaethol** ond gellir eu mabwysiadu ar lefel leol. Fel GGLI, rydych chi'n fwy tebygol o fod yn gweithio'n uniongyrchol tuag at **ddileu** neu **reoli** yn hytrach nag atal.

## Dogfennau llywodraethu

Efallai y bydd angen i chi gynhyrchu Cylch Gorchwyl, dogfen lywodraethu neu gyfansoddiad. Bydd hyn yn hysbysu aelodau a'r cyhoedd o nodau'r grŵp a sut i gyrraedd y nodau hyn. Dylech hefyd nodi'n glir sut caiff y grŵp ei redeg. Gall cael Cylch Gorchwyl neu gyfansoddiad fod yn fuddiol iawn, yn enwedig os ydych chi'n ystyried gwneud cais am gyllid.

Gall Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru helpu grwpiau lleol i sefydlu a dylai allu darparu cyngor a chymorth wrth sefydlu. Rydym hefyd wedi cynhyrchu templed **Cylch Gorchwyl, cyfansoddiad, a chod ymddygiad** y gallwch eu golygu at ddefnydd eich GGLI eich hun.

## Hyrwyddo eich grŵp a dod o hyd i wirfoddolwyr

Er mwyn bod yn effeithiol a chynaliadwy mae angen i chi hyrwyddo eich grŵp a dod o hyd i wirfoddolwyr. Dylech gofrestru eich GGLI ar wefan GB NNSS. Gallech hefyd geisio mapio'ch cymuned (e.e., ymarfer mapio cymunedol Cyfeillion y Ddaear, edrychwch ar y ddogfen adnoddau ychwanegol) i weld pwy ddylech chi gysylltu â hwy/mynd atynt.

Enghreifftiau o ble a sut i ddod o hyd i wirfoddolwyr:

**Siarad â ffrindiau, trefnwyr a grwpiau lleol eraill**

**Cyfryngau cymdeithasol:**

- Creu grŵp ar gyfryngau cymdeithasol a'i diweddaru yn gyson
- Postio ar dudalennau digwyddiadau / cymunedau lleol, gwefannau, blogiau a fforymau

**Grwpiau hamdden** e.e. clybiau pysgota, grwpiau garddio, Sgowtiaid, cofnodwyr bywyd gwyllt, gwobr Dug Caeredin

**Sector preifat –** busnesau lleol

**Cynghorau plwyf / cymuned**

**Elusennau amgylcheddol** e.e. Ymddiriedolaethau Natur, ac ati.

**Creu taflen / poster** a'i osod o amgylch y gymuned

- Adeiladau / canolfan gymunedol
- Siopau lleol / swyddfa bost
- Llyfrgell / meddygfa

**Stondinau mewn digwyddiad / sioe leol, cyflwyniadau lleol**

**Anfon cylchlythyrau**

**Wythnos y glas mewn prifysgolion**

Mae hefyd yn bwysig ystyried pwy yw eich cynulleidfa darged a sut i'w chyrraedd. Bydd hyn yn eich helpu i ddenu gwirfoddolwyr. Dylech hefyd:

- Darparu lluniaeth e.e. te neu goffi a bisgedi
- Darparu gwybodaeth (e.e. canllawiau adnabod) a hysbysu gwirfoddolwyr pam fod y gwaith yn bwysig.
- Enghreifftio llwyddiannau a manteision e.e. ailsefydlu rhywogaeth frodorol a manteision lles i wirfoddolwyr, ac ati.
- Darparu hyfforddiant a chyfle i wirfoddolwyr ddatblygu sgiliau newydd.
- Darparu cludiant i'r safle.
- Cysylltiad â materion amgylcheddol eraill (e.e. sbwriel neu newid hinsawdd).
- Caniatáu i wirfoddolwyr ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb e.e. codi ymwybyddiaeth, recriwtio, mapio, ymgyrchu, ac ati.
- Casglu diddordeb gyda chymorth enwogion.

Unwaith y byddwch wedi denu gwirfoddolwyr i'ch GGLl, mae'n bwysig eu cadw, ceisio ac:

- Amrywio tasgau a thorri'r diwrnod
- Cynnal cyfarfod blynyddol i roi diweddariadau a diolch i wirfoddolwyr
- Cynnal momentwm drwy weithio mewn ardaloedd newydd ac ar rywogaethau ymledol eraill
- Meithrin ymrwymiad a hyrwyddo hunaniaeth gymunedol, e.e., sefydlu cynllun mabwysiadu ardal lle mae unigolion neu grwpiau bach yn ysgwyddo cyfrifoldeb am ardal
- Siarad â gwirfoddolwyr a'u hannog i weld y darlun ehangach, e.e. pam ei bod yn bwysig rheoli'r dalgylch cyfan? Beth yw manteision rheoli a chael gwared ar rywogaethau ymledol?



© Rob Jordan 2020VISION




Cwmwl geiriau o ffyrdd i ddenu a chadw gwirfoddolwyr. Mae'r cwmwl geiriau wedi'i greu gan ddefnyddio wordclouds.co.uk

Cyn i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwnewch yn siŵr bod gennych chi gofnod a'ch bod yn ymwybodol o unrhyw faterion meddygol a chysylltiadau brys. Gallwch ddod o hyd i dempled o ffurflen gofrestru gwirfoddolwyr a chronfa ddata yma. Mae angen i unrhyw wybodaeth am wirfoddolwyr y byddwch yn ei chasglu gydymddurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar gyfer Diogelu Data.

## Iechyd a diogelwch

Mae **yswiriant** yn bwysig iawn a bydd ei angen os ydych yn bwriadu cynnal unrhyw ddigwyddiadau, gweithgareddau neu gyfarfodydd. Bydd cael yswiriant nid yn unig yn amddiffyn eich grŵp a'ch gwirfoddolwyr ond hefyd yn dangos eich bod yn ymddwyn yn gyfrifol.

Enghreifftiau o ble gallwch chi ddod o hyd i yswiriant ar gyfer eich GGLI:

- Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnig 'Cynllun Yswiriant Grŵp Cymunedol'. Mae yswiriant sylfaenol am ddim i grwpiau a ffurfiwyd yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae'r Ymddiriedolaeth ar gyfer gwirfoddolwyr cadwraeth yn cynnig yswiriant am bris is i aelodau wedi'i warantu gan Zurich.
- Mae Zurich yn cynnig 'yswiriant elusen, clwb ac nid-er-elw'.
- Cyngor lleol, efallai y byddwch hefyd yn gallu cael yswiriant gwirfoddolwyr drwy eich cyngor lleol.

Er y dylai'r wybodaeth hon fod yn adnodd defnyddiol, ni all WaREN gymeradwyo ac nid yw'n darparu argymhellion ar yswiriant ar gyfer GGLI.

### Asesiadau risg:

Mae'n hanfodol ystyried materion iechyd a diogelwch a chwblhau asesiadau risg digonol ar gyfer eich GGLI ac unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd rydych yn bwriadu ei gynnal. Rydym wedi cynhyrchu asesiad risg enghreifftiol sy'n cynnwys llawer o beryglon posibl y gallech eu hwynebu a gwybodaeth am sut gellid lliniaru'r risgiau hyn. Bydd angen asesiad risg ar wahân ar gyfer rhai gweithgareddau e.e. chwistrellu chwynladdwyr. Mae'r enghreifftiau hyn wedi'u cynnwys fel templedi yn unig, bydd angen i chi asesu risgiau penodol i chi.

Fel rhan o'ch asesiad risg mae hefyd yn bwysig ystyried pa **Gyfarpar Diogelu Personol (PPE)** fydd ei angen. Dylid trosglwyddo'r wybodaeth hon i wirfoddolwyr, gan sicrhau bod gan bawb y PPE cywir a phriodol.

Dylid asesu'r **cyfleusterau lles** sydd ar gael ar gyfer pob digwyddiad neu weithgaredd. Lle bo modd, dylid dewis lleoliadau gyda chyfleusterau da. Os nad oes cyfleusterau ar gael meddyliwch sut gallech chi ddarparu adnoddau amgen, e.e. os nad oes cyfleusterau golchi dwylo gwnewch yn siŵr eich bod yn dod â hancesi papur neu hylif diheintio dwylo gyda chi, er mwyn i bawb allu glanhau eu dwylo cyn bwyta ac yfed. Mae'n bosibl y bydd angen asesiad lles ar rai cyllidwyr neu berchnogion tir er mwyn gweinyddu cyllid neu ganiatáu mynediad i'w tir. Gallwch ddod o hyd i dempled ffurflen Lles yma, fodd bynnag, bydd angen i chi asesu gofynion penodol.





© Kirsty Brown - NWWT

## Bioddiogelwch:

Mae bioddiogelwch yn lleihau'r risg o ledaenu rhywogaethau ymledol. Dylid cynnwys arferion bioddiogelwch da yn eich asesiad risg. Mae mwy o wybodaeth yn adran bioddiogelwch ein Pecyn Adnoddau Rhywogaethau Ymledol.

Cyn dechrau ar unrhyw beth gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r rhestr dicio iechyd a diogelwch hon:

Darganfod mwy.

| | |
|---|---|
| ☐ | Asesu'r holl faterion iechyd a diogelwch posibl |
| ☐ | Paratoi asesiad risg safle-benodol a gweithgaredd-benodol digonol (cyffredinol a chwistrellu chwynladdwyr) |
| ☐ | Sicrhau bod gan bob gwirfoddolwr y PPE cywir a digonol |
| ☐ | Bod ag yswiriant cyfredol a chynhwysfawr |
| ☐ | Sicrhau bod gennych gofnodion cyfredol am unrhyw faterion meddygol a manylion cyswllt brys ar gyfer pob gwirfoddolwr |
| ☐ | Swyddog cymorth cyntaf gydag offer digonol |
| ☐ | Yr holl offer trydanol wedi'u profi drwy Brawf Cyfarpar Symudol (PAT) |
| ☐ | Rhoi briff diogelwch ac egluro'r gwaith cyn dechrau, gan gynnwys pwysigrwydd bioddiogelwch wrth weithio gyda rhywogaethau ymledol. |



## Hyfforddiant

Efallai y byddwch eisiau neu angen hyfforddiant ar gyfer aelodau eich GGLI, fel:

- Hyfforddiant PA1 a PA6 plaladdwyr
- Cymorth Cyntaf

I gael gwybod mwy, edrychwch ar ein dogfen hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol.



© Lesley James

## Cyngor gan grwpiau gweithredu lleol

### Brian Mahony - Grŵp Llwybrau Troed y Narth a'r Cylch

Mae mynd i'r afael â Jac y neidiwr yn brosiect cadwraeth natur cymunedol gwych. Mae Jac y neidiwr yn hawdd ei dynnu ac mae'n dasg gymunedol sy'n rhoi llawer o foddhad i dîm sy'n cydweithio. Ychydig iawn o offer arbenigol sydd ei angen ar gyfer lladd Jac y neidiwr - mae esgidiau a menig yn hanfodol a gall slaeswr fod yn ddefnyddiol i ddod o hyd i'ch ffordd i mewn ac i dorri'r planhigion sydd wedi'u tynnu.

Dechreuwch gydag arolwg bob amser i weld ble mae'r planhigyn yn tyfu a gwnewch fap. Meddyliwch am nifer y planhigion, cyflwr y tir (gwnewch yn siŵr nad yw'n rhy wlyb nac yn rhy serth i wirfoddolwyr weithio'n ddiogel), a darganfod pwy sy'n berchen ar y tir a gofyn am eu caniatâd.

Dewiswch amser pan mae'r Jac y neidiwr i'w weld yn glir, ond cyn i'r codennau hadau ddechrau ffurfio, ac i ffwrdd â chi! Mae Jac y neidiwr yn blanhigyn blynyddol, felly'r nod yw ei atal rhag hadu a lleihau nifer y planhigion fydd yn tyfu yn y flwyddyn ganlynol. Gall y canlyniadau fod yn syfrdanol - gellir lleihau mat trwchus o filoedd lawer o blanhigion ym Mlwyddyn un i ddim ond ychydig gannoedd ym Mlwyddyn dau a degau o blanhigion ym Mlwyddyn tri. Mae'n bwysig dal ati! Ar ôl lladd Jac y neidiwr yn ystod y flwyddyn gyntaf, dilynwch hynny gydag un neu ddau ymweliad arall i chwilio am blanhigion sydd wedi goroesi a'u tynnu nhw hefyd.

Cadwch gofnod da o ble rydych chi wedi gweithio ac yn fras faint o blanhigion rydych chi wedi'u tynnu. Defnyddiwch hwn i gynllunio pa sesiynau dilynol sydd eu hangen ym mlynyddoedd dau, tri a thu hwnt. Gall pob planhigyn gynhyrchu cannoedd o hadau, felly mae gwaith dilynol yn hanfodol i atal y Jac y neidiwr rhag ailsefydlu. Wrth i'r ardaloedd gael eu clirio, bydd planhigion brodorol yn dychwelyd.

Mae ein Prosiect Jac y neidiwr wedi bod yn llwyddiant mawr. Nid yw ymylon ein ffyrdd, nentydd a gwlybdir bellach yn fôr o binc yn yr haf. Mae'r newid yn ein tirweddau a'n cynefinoedd ni'n amlwg ac yn rhoi boddhad mawr i bawb sy'n cymryd rhan!

# Canllaw syml i arwain diwrnod rheoli
## cynllun 8 pwynt

**Rhestr wirio offer:**

- ☐ Offer rheoli
- ☐ Hancesi alcohol / gel llaw
- ☐ Asesiad risg
- ☐ Cit bioddiogelwch
- ☐ Cofrestr
- ☐ Cit Cymorth Cyntaf
- ☐ Yswiriant Cyfredol
- ☐ Bisgedi

### 1 Cydlynu gyda Grwpiau Gweithredu Lleol a phrosiectau eraill

Oes unrhyw Grwpiau Gweithredu Lleol eraill yn yr un ardal yn gweithio ar yr un peth? Ydyn nhw eisiau cydweithio?

### 2 Dewis eich safle

Dewiswch safle lle bydd eich gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth, gwnewch yn siŵr bod gennych ganiatâd perchennog y tir a bod posib i wirfoddolwyr gael mynediad diogel i'r ardal.

### 3 Cwblhau eich Asesiad Risg

Cwblhewch eich asesiad risg. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi nodi'r peryglon a sut i'w rheoli. Rhannwch hwn gyda'ch gwirfoddolwyr!

### 4 Cynllunio eich diwrnod a lledaenu'r gair

Dewiswch amser a dyddiad. Hysbysebwch eich gweithgaredd. Gwnewch yn siŵr bod gennych yr holl offer a chofiwch am eich citiau bioddiogelwch a bisgedi!

### 5 Arwain eich tîm

Nodwch strwythur y diwrnod a rhoi gwybod i'ch gwirfoddolwyr pryd bydd egwyl. Dylid cyfleu pam mae rheoli rhywogaethau ymledol yn bwysig.

### 6 Dangos y dasg

Cyn dechrau ewch ati i ddangos y dulliau rheoli sy'n arfer gorau ac esbonio pam maent yn bwysig.

### 7 Bioddiogelwch

Cofiwch ddilyn arferion bioddiogelwch da ac esbonio pam eu bod mor bwysig i atal lledaeniad!

### 8 Cofnodi eich gweithgarwch

Cofiwch gofnodi eich gweithgarwch rheoli, uwchlwytho unrhyw wybodaeth am weld rhywogaethau i LERC Cymru neu ar Fapiwr INNS, a thynnu lluniau cyn ac ar ôl!

# Monitro a rheoli

## Arolygu

Mae arolygu yn syml ac yn cael ei ddefnyddio i benderfynu pa rywogaethau sy'n bresennol. Mae arolygu hefyd yn ddull hanfodol o ganfod rhywogaethau newydd a monitro eu lledaeniad. Yn aml, arolygon yw'r cam cyntaf tuag at reoli rhywogaethau ymledol a dylent, lle bo modd, fapio dosbarthiad a niferoedd. Dylid defnyddio arolygon i nodi tarddiad y lledaeniad, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau a all ymledu i lawr yr afon, er mwyn gweithredu camau rheoli strategol, e.e., dechrau yn y ffynhonnell uchaf a gweithio i lawr yr afon.

Fel arfer gellir rhannu arolygon yn dri chategori neu fath:

- **Cyffredinol –** chwilio am blanhigion ac anifeiliaid mawr neu amlwg
- **Safle-benodol –** edrych ar yr holl rywogaethau sy'n bresennol o fewn safle wedi'i dargedu
- **Rhywogaeth-benodol –** chwilio am rywogaeth benodol, cynhelir yr arolygon hyn fel arfer pan mae bygythiad clir wedi'i nodi neu ei flaenoriaethu



Cacynen Asia (*Vespa velutina*)

Gallwch roi gwybod am eich data arolygu a'r hyn rydych chi wedi'i weld i'ch Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (LERC), gan ddefnyddio Ap LERC Cymru, ar-lein drwy iRecord neu trwy ddefnyddio Mapiwr INNS. Mae angen rhoi gwybod am Rywogaethau Rhybudd i'r corff perthnasol, gallwch gael gwybod mwy a chael gwybodaeth am ble i roi gwybod amdanynt ar wefan GB NNSS.

Cyngor arolygu:

- Adnabod eich rhywogaethau, bydd hyn yn eich helpu i adnabod rhywogaethau a phenderfynu a ydynt yn newydd i'r ardal
- Dod o hyd i arbenigwyr lleol a gweld a ydyn nhw'n fodlon helpu gyda'r gwaith arolygu neu adnabod dilynol
- Cofnodi a rhoi gwybod am bob rhywogaeth a welwyd
- Tynnu lluniau o'r rhai sydd wedi'u gweld o'r newydd, bydd hyn yn helpu i'w hadnabod
- Chwilio am arwyddion o bresenoldeb rhywogaethau e.e. traciau, baw neu ddifrod bwydo
- Cynnal arolwg ar adegau priodol o'r flwyddyn i gynyddu'r siawns o adnabod rhywogaethau targed
- Gweithredu arferion bioddiogelwch da a sicrhau nad ydych yn cludo unrhyw rywogaethau neu glefydau ymledol

## Dulliau arolygu eraill

Mae dulliau amgen arloesol yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n barhaus, fel defnyddio dronau a DNA amgylcheddol (eDNA).

Mae **dronau** wedi cael eu defnyddio i ganfod presenoldeb planhigion ymledol ac maent yn arbennig o ddefnyddiol wrth arolygu ardaloedd anodd eu cyrraedd neu ardaloedd peryglus. Mae Menter Rhywogaethau Ymledol yr Alban a Bwrdd Pysgodfeydd Spey[6] wedi defnyddio dronau i ddod o hyd i ddarnau cudd o efwr enfawr a clymog Japan. Mae technoleg drôn yn cael ei datblygu'n gyson i leihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ganfod rhywogaethau ymledol o blanhigion. Er enghraifft, mae'r Ganolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg DU[7] yn datblygu system deallusrwydd artiffisial newydd a all arolygu ardal yn gyflym ac adnabod rhywogaethau ymledol.



© Gemma Rose - NWWT

**DNA Amgylcheddol** (eDNA) yw DNA sydd wedi'i ryddhau i'r amgylchedd gan blanhigion ac anifeiliaid drwy groen, mwcws ac ysgarthion, neu pan fyddant yn marw. Drwy gasglu a dadansoddi samplau amgylcheddol (e.e., dŵr neu bridd) ar gyfer olion DNA, gallwn gael cipolwg ar y rhywogaethau sy'n bresennol yn yr ardal. Gellir defnyddio eDNA hefyd i ganfod rhywogaethau ymledol.




© Freshwater HabitatsTrust



6 Menter Rhywogaethau Ymledol yr Alban: Eye in the sky reveals hidden alien invaders
7 Canolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg Du: AI system could identify roadside invasive species

# Monitro

## Pam ei bod yn bwysig monitro rheolaeth?

Mae rheolaeth effeithiol a chynaliadwy[†] yn gofyn am wybodaeth ynghylch ble canfyddir rhywogaethau ymledol ac a ydynt yn cael sylw, gan alluogi asiantaethau'r llywodraeth (e.e., CNC), prosiectau, sefydliadau, a GGLI i gydweithio ac osgoi dyblygu ymdrech.

Hefyd mae monitro cynnydd yn sicrhau bod eich prosiect ar y trywydd iawn ac yn galluogi gwerthuso dulliau rheoli, e.e., cadarnhau absenoldeb rhywogaeth yn dilyn rhaglen ddileu. Gellir cyflawni hyn drwy gynnwys cyfres o dasgau a cherrig milltir yn eich cynllun gweithredu strategol.

## Sut dylid monitro rheolaeth?

Ni ellir pennu llwyddiant ymdrechion rheoli drwy fesur faint o waith a wneir (er y gall y cofnodion hyn helpu i gynnal cymhelliant gwirfoddolwyr!). Yn lle hynny, mae angen mesur nifer y rhywogaethau ymledol sy'n weddill a chyflwr yr ecosystem. Nid oes rhaid i fonitro llwyddiant rheolaeth fod yn gymhleth a gellir ei gyflawni'n hawdd drwy gategoreiddio helaethrwydd y rhywogaethau yn flynyddol. Gallwch ddod o hyd i ganllaw ar fapio rhywogaethau yn syml ac yn effeithiol yma.



Madfall ddŵr Alpaidd (*Ichthyosaura alpestris*)

Ni fydd cael gwared ar rywogaethau ymledol bob amser yn arwain at rywogaethau brodorol yn dychwelyd ar unwaith a chynefin targed gwell. Weithiau gall cael gwared ar rywogaethau ymledol arwain at rywogaethau anfrodorol eraill (nad ydynt yn ymledol) yn sefydlu, neu rywogaethau nad ydynt yn creu'r cynefin targed. Mae hyn yn bwysig i'w ystyried wrth gynllunio eich prosiect a monitro rheolaeth. Edrychwch ar ganllawiau'r PCA 'revegetation following invasive non-native weed management' am ragor o wybodaeth.

† Yma, mae rheolaeth yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at fonitro, rheoli a/neu ddileu rhywogaeth ymledol

## Rheoli cofnodion

Mae prosiect partneriaeth yn datblygu adnodd ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi rhywogaethau ymledol ar draws Prydain Fawr. Yn bwysig, bydd hyn yn eich galluogi chi i gofnodi eich ymdrechion rheoli, a gweld ymdrechion rheoli arall. Mwy o wybodaeth yma.

## Gwybodaeth reoli

Mae tri opsiwn rheoli eang. Y mwyaf dymunol yw **dileu,** er nad yw'n ymarferol yn aml. Lle nad yw'n bosibl dileu, dylech geisio **cyfyngu'r** rhywogaeth neu roi mesurau **rheoli** ar waith.

Er mwyn rheoli rhywogaeth ymledol yn llwyddiannus ac yn effeithiol, rhaid i chi ddewis y dull mwyaf priodol a gwneud gwaith rheoli ar yr amser mwyaf addas o'r flwyddyn a'r cyfnod bywyd mwyaf addas. Yn nodweddiadol, gellir rhannu dulliau rheoli yn bedwar categori:



Rheolaeth biolegol ffwng rhwd i reoli Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*) © NWWT

| | |
|---|---|
| **Llaw neu Fecanyddol** | **Planhigion –** e.e., dadwreiddio, torri, tynnu, cribinio a chloddio<br>**Anifeiliaid –** e.e., trapio, saethu a rhwydo neu electrobysgota ar gyfer pysgod |
| **Cemegol** | Defnyddio cemegau penodol e.e. chwynladdwyr a phryfladdwyr i ladd rhywogaethau ymledol<br>**Planhigion –** e.e., chwistrellu, pigiadau mewn coesynnau neu roi chwynladdwr drwy driniaeth yn y fan a'r lle<br>**Anifeiliaid –** e.e., gorsafoedd abwyd |
| **Biolegol** | Defnyddio plâu, clefyd neu ysglyfaethwyr o ranbarth cynhenid y rhywogaeth ymledol fel dull rheoli neu ddileu.<br>**Planhigion –** e.e., ffwng rhwd i reoli Jac y neidiwr |
| **Naturiol** | Defnyddio ysglyfaethwyr naturiol i wanhau rhywogaeth ymledol a'i hatal rhag dod yn broblem<br>**Planhigion –** e.e., pori |
| **Amgylcheddol** | Newid neu drin yr amgylchedd fel bod cynefin neu ecosystem yn wytnach a rhywogaethau ymledol yn llai tebygol o sefydlu a / neu lledaenu.<br>e.e., drwy newidiadau i gyflymder dŵr |

Mae opsiynau rheoli rhywogaeth-benodol i'w gweld yn adran Rheolaeth y Pecyn Adnoddau Rhywogaethau Ymledol yma.

Cynllunio Prosiectau

## Cyllid

Er nad yw'n hanfodol, efallai y byddwch eisiau gwneud cais am gyllid i helpu i redeg eich GGLl neu brosiect. Er enghraifft, efallai y bydd arnoch angen cyllid i brynu yswiriant, offer neu i gynnal hyfforddiant.

### Ble i ddod o hyd i gyllid?

Rydym wedi cynhyrchu cronfa ddata ariannu sy'n cynnwys gwybodaeth am lawer o wahanol gyrff ariannu a grantiau. Efallai y byddwch hefyd yn dod o hyd i gyfleoedd ariannu drwy:

- Awdurdodau Lleol – cyllido prosiectau cymunedol
- Sefydliad Cymunedol Cymru
- Funds Online
- GrantScape

A llawer mwy.

Mae'n bwysig cofio y gallai eich cyllid ddod o rywbeth heblaw cais sydd wedi'i anelu'n benodol at rywogaethau ymledol. Cadwch lygad am unrhyw beth sy'n ymwneud â (ond heb fod yn gyfyngedig i) gwytnwch ecolegol, newid byd-eang, cynyddu bioamrywiaeth ac ymgysylltu cymunedol.

Hefyd efallai y byddwch yn gallu cael rhywfaint o arian o roddion neu eich cymuned leol. Os ydych chi'n cymryd camau rheoli ar dir preifat, ystyriwch ofyn iddynt am rodd i helpu i dalu am offer neu luniaeth. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael rhoddion mewn nwyddau gan y cyngor lleol neu gymunedol. Er enghraifft, a allech chi ofyn i'r cyngor ddarparu offer, hyfforddiant neu oriau contractwyr?





© Andy Morris

## Cynlluniau a strategaethau cenedlaethol

Wrth sefydlu eich GGLI neu wneud cais am gyllid, mae'n bwysig cysylltu â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae nifer o gynlluniau neu strategaethau ym Mhrydain Fawr a Chymru sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau ymledol, fel y rhain:

### Strategaethau Cymru

Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020

- Yn dangos yr heriau, y blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol

Strategaeth cyflwr coed Llywodraeth Cymru

- Strategaeth iechyd coed ar gyfer coedwigoedd yng Nghymru

Coetiroedd ar gyfer Cymru

- Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed

### Strategaethau ar gyfer Prydain Fawr

Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol Prydain Fawr (2023-2030)

- Yn nodi'r amcanion a'r camau gweithredu allweddol sydd eu hangen i ddatblygu dull cydlynol o fynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan rywogaethau ymledol

Cynlluniau gweithredu thematig Natur 2000 ar gyfer rhywogaethau ymledol a phathogenau

- Yn nodi'r heriau allweddol sy'n wynebu safleoedd, rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig, ac yn pennu'r camau gweithredu sydd eu hangen, y costau a'r cyfleoedd ariannu i fynd i'r afael â hwy

Strategaeth bioddiogelwch planhigion ar gyfer Prydain fawr (2023 - 2028)

- Strategaeth Prydain Fawr tuag at fioddiogelwch planhigion i amddiffyn ein planhigion a choed

## Cynlluniau a strategaethau lleol

Mae gan lawer o awdurdodau lleol eu strategaeth rhywogaethau ymledol eu hunain hefyd, neu strategaethau sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau ymledol(*), cysylltwch â'ch Awdurdod Lleol am ragor o wybodaeth.

**Ynys Môn**

- *Cynllun datblygu lleol ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd

**Blaenau Gwent**

- *Bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau - blaengynllun 2019-2022 a cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol 2015

**Pen-y-bont ar Ogwr**

- * Bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau - blaengynllun 2018-2022, cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol ac adroddiad technegol

**Caerffili**

- *Cynllun gweithredu bioamrywiaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili: trosolwg a datganiad cynefin

**Caerdydd**

- *Rheoli bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yng Nghaerdydd

**Sir Gaerfyrddin**

- Cynllun adfer natur Sir Gaerfyrddin: mae'r cynllun ar gyfer rhywogaethau estron ymledol ar ffurf drafft

**Ceredigion**

- *Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol

**Conwy**

- *Cynllun datblygu lleol Conwy 2007-2022

**Sir Ddinbych**

- *Cynllun cyflawni dyletswydd bioamrywiaeth a Rhywogaethau gwarchodedig yn Sir Ddinbych

**Sir y Fflint**

- Chwyn sy'n creu difrod ac INNS
- *Cynllun cyflawni dyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau a Cefnogi byd natur yn Sir y Fflint

**Gwynedd**

- Cynllun gweithredu planhigion ymledol
- *Cynllun datblygu lleol ar y cyd Ynys Môn a Gwynedd, Cynllun dyletswydd bioamrywiaeth 2017-2019 a Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Eryri

### Merthyr Tudful

- *Nodyn cyfarwyddyd cynllunio atodol 5, Gweithredu dros fywyd gwyllt ym Merthyr Tudful a Cynllun gweithredu adfer natur ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 2019-2024

### Sir Fynwy

- *Asesiad rheoli cynefinoedd o gynllun datblygu lleol newydd Sir Fynwy, Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol Sir Fynwy a Cynllun gweithredu bioamrywiaeth hawliau tramwy cyhoeddus Sir Fynwy

### Castell-nedd Port Talbot

- *Adroddiad gweithredu cynllun dyletswydd bioamrywiaeth (2017)

### Casnewydd

- Polisi a chynllun gweithredu rhywogaethau estron ymledol
- *Adroddiad dyletswydd bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau 2019 a Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol

### Sir Benfro

- Cynllun gweithredu rhywogaethau estron ymledol
- *Cynllun gweithredu adfer natur ar gyfer Sir Benfro Rhan 1

### Powys

- Cynllun gweithredu rhywogaethau planhigion dieithr
- Rhan II-E rheoli rhywogaethau ymledol
- *Partneriaeth bioamrywiaeth leol Powys: adolygiad CGBLl a Cynllun datblygu lleol Powys (2011-26)

### Rhondda Cynon Taf

- *Gweithredu dros natur 2008, Asesiad rheoliadau cynefinoedd o gynllun datblygu lleol newydd Torfaen, a Gweithredu dros natur 2008

### Abertawe

- *Cynllun gweithredu bioamrywiaeth lleol

### Torfaen

- *Asesiad rheoliadau cynefinoedd o gynllun datblygu lleol newydd Torfaen

### Bro Morgannwg

- *Cynllun datblygu lleol 2011-2026, a Blaengynllun bioamrywiaeth

### Wrecsam

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain o gynlluniau a strategaethau lleol a cenedlaethol i'w gysidro. Mae hefyd cynlluniau llesiant lleol a Datganiadau Ardal CNC.

# Bioddiogelwch






© NWWT

# Bioddiogelwch

## Beth yw bioddiogelwch?

Bioddiogelwch yw'r term a roddir i unrhyw gamau diogelu neu ragofalus i leihau cyflwyno a lledaenu rhywogaethau ymledol (ac organebau niweidiol eraill e.e., clefydau). Gall bioddiogelwch fod ar sawl ffurf ond yn nodweddiadol mae'n ymwneud ag arferion syml fel glanhau offer, cerbydau ac esgidiau rhwng safleoedd i leihau trosglwyddo rhywogaethau ymledol.

### Pam mae bioddiogelwch yn bwysig?

Gyda masnach a symudiad byd-eang cynyddol, mae'r risg o gyflwyno rhywogaethau ymledol, eu lledaenu a'u bygythiad i adnoddau naturiol yn cynyddu.

Rhwng 1976 a 2020, amcangyfrifwyd bod rhywogaethau ymledol yn costio rhwng £5.4 a £13.7 biliwn[2] i'r DU. Yn 2010 amcangyfrifwyd bod y gost hon yn o leiaf £125 miliwn i Gymru yn unig[8], sydd ond yn debygol o gynyddu. Mae bioddiogelwch yn adnodd pwysig ac yn llinell amddiffyn gyntaf i ni i atal eu lledaeniad. Unwaith y cânt eu cyflwyno, gall fod yn anodd iawn ac yn gostus iawn eu rheoli a / neu eu dileu.

### Beth allwn ni ei wneud i fod yn fwy ymwybodol o fioddiogelwch?

Mae bioddiogelwch yn berthnasol i bopeth rydym yn ei wneud, gan gynnwys gweithgareddau bob dydd, fel mynd am dro neu bysgota. Gallwn ni i gyd ddod yn fwy ymwybodol o fioddiogelwch drwy gymryd rhagofalon bach sydd angen ychydig iawn o amser ac adnoddau, fel glanhau ein hesgidiau ar ôl mynd am dro. Edrychwch ar yr adrannau asesu risg ac arferion gorau bioddiogelwch am ragor o wybodaeth. Mae bioddiogelwch yn ei gwneud yn ofynnol i ni i gyd feddwl yn weithredol am: sut rydym yn rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol, sut gallem fod yn lledaenu rhywogaethau ymledol yn anfwriadol, a'r hyn y gallwn ei wneud i leihau eu lledaeniad.

## Rhywogaethau ymledol:

Mae rhywogaethau ymledol yn rhywogaethau anfrodorol sydd wedi'u cyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol gan bobl. Maent wedi'u nodi fel un o'r pum prif sbardun ar gyfer colli bioamrywiaeth yn fyd-eang gan IPBES[1]. Gall eu hymlediad achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi a'n hiechyd.

Cyfeirir at rywogaethau anfrodorol ymledol (INNS) hefyd fel Rhywogaethau Estron Ymledol (IAS). Yma rydym yn cyfeirio atynt fel rhywogaethau ymledol. Mwy o wybodaeth ar gael ar ein tudalen we.





Cimwch afon America (*Pacifastacus leniusculus*)

1 IPBES: Adroddiad asesiad byd-eang ar fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau
2 Cuthbert et al (2021) Economic costs of biological invasions in the United Kingdom
8 Williams et al (2010) The economic cost of invasive non-native species of Great Britain

## Strategaeth Bioddiogelwch Cymru

Gyda'r argyfyngau natur a hinsawdd presennol yn effeithio ar Gymru, mae WaREN yn drafftio Strategaeth Bioddiogelwch i Gymru i helpu i ddiogelu bioamrywiaeth ac ecosystemau Cymru rhag rhywogaethau ymledol. Mae'r strategaeth ar gyfer unrhyw un, rhanddeiliaid WaREN, a WaREN Mae gan y Strategaeth ddau nod:

1. Gwella'r ddealltwriaeth o fesurau bioddiogelwch a sut maent yn helpu lleihau risg cyflwyno neu ledaenu rhywogaethau ymledol ledled Cymru, a
2. Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fesurau bioddiogelwch ar draws Cymru.

## Siarter Amddiffyn Natur Nawr

Bydd ein Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei lansio gennym ochr yn ochr â'n siarter Amddiffyn Natur Nawr. Mi fydd ein siarter yn uno rhanddeiliaid a phartneriaid sydd â dealltwriaeth gyffredin i gefnogi rheolaeth gynaliadwy ar rywogaethau ymledol. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau, grwpiau a / neu fusnesau i ddangos eu hymrwymiad i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yng Nghymru. Darganfyddwch mwy yma.

AMDDIFFYN NATUR NAWR
RHAG RHYWOGAETHAU ANFRODOROL YMLEDOL
ATAL Y LLEDAENIAD



© Gemma Rose



© Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri



© Paganus

Blodau a hadau Jac y neidiwr (*Impatiens gladulifera*) a sut gall hadau lynu wrth wadnau esgidiau.

## Sut mae rhywogaethau ymledol yn cael eu lledaenu?

Unwaith maent yn bresennol ac wedi sefydlu yn yr amgylchedd, gall rhywogaethau ymledol ledaenu'n naturiol neu drwy fodau dynol.

### Gwasgaru naturiol

Mae gwasgaru naturiol o fewn ystod ymledol yn digwydd drwy wynt, dŵr a bywyd gwyllt (e.e., adar yn gwasgaru hadau).

Gall fod yn anodd rheoli, monitro a chadw trefn ar ledaeniad drwy ddulliau naturiol.



©Jess Minett - WaREN





## Gwasgaru dynol

Gall bodau dynol ledaenu rhywogaethau ymledol mewn sawl ffordd, ac yn aml mae gan y rhain y potensial i gludo organebau yn gyflymach ac ymhellach na thrwy ddulliau naturiol.



© Mark Hamblin/ 2020VISION



© Katrina Martin/ 2020VISION



© Katrina Martin/ 2020VISION



© Guy Edwardes/ 2020VISION



© Terry Whittaker/ 2020VISION



© Guy Edwardes/ 2020VISION



© Terry Whittaker/ 2020VISION



© Rob Jordan/ 2020VISION

Enghreifftiau o wasgaru dynol ar rywogaethau ymledol.

### Esiamplau o wasgaru gan bobl:

**Hamdden**
- Pysgota
- Chwaraeon Dŵr
- Cerdded
- Garddio

**Diwydiant**
- Coedwigaeth
- Amaethyddiaeth
- Llongau
- Pŵer

**Rheoli Tir**
- Cynnal a Chadw
- Datblygu
- Adfer

**Gwaith Maes**
- Arolygon
- Ymchwil
- Cadwraeth natur

**Teithio**
- Masnach dramor
- Gwyliau
- Teithiau

Gall bodau dynol ledaenu rhywogaethau ymledol yn hawdd ac yn anfwriadol drwy weithgareddau hamdden, diwydiant, rheoli tir, gwaith maes a theithio. Heb fioddiogelwch effeithiol, mae gan rywogaethau ymledol nifer o gyfleoedd i 'fachu lifft', gan gynyddu eu siawns o gael eu cyflwyno a'u lledaenu.

## Beth i gadw llygad amdano?

Gall rhywogaethau ymledol ddefnyddio nifer o gyfryngau (enghreifftiau isod) i ledaenu; er enghraifft, gall rhywogaethau gael eu lledaenu'n fwriadol a'u gwerthu neu eu lledaenu'n anfwriadol.

| | |
|---|---|
| **Unigolion byw** | Mae rhywogaethau yng nghamau cynnar eu bywyd yn aml yn cael eu lledaenu'n hawdd ac yn anfwriadol oherwydd gallant fod yn fach iawn, yn ficrosgopig weithiau hyd yn oed.<br>Gall pryfed gael cyfnod larfa hir a chael eu lledaenu'n hawdd gyda nwyddau a deunyddiau. |
| **Hadau a sborau** | Gall hadau a sborau ddigwydd mewn amrywiaeth o feintiau, o filimetrau (e.e., Jac y neidiwr) i ychydig gentimetrau (e.e., efwr enfawr). Gellir eu lledaenu'n hawdd mewn deunydd wedi'i lygru yn ogystal â thrwy lynu wrth esgidiau a dillad. |
| **Darnau o blanhigion** | Mae llawer o blanhigion yn gallu adfywio o ddarnau bach. Gall y darnau hyn fod yn anodd eu gweld (yn enwedig pan maent yn fach) ac yn hawdd eu cludo ar ddillad, peiriannau neu mewn dŵr. |
| **Peryglon biofaeddu** | Gall rhywogaethau ymledol lynu, sefydlu ac aros heb eu canfod ar ochr isaf cychod nes iddynt gael eu tynnu o'r dŵr. |
| **Bygythiadau microsgopig** | Gellir cludo feirysau, bacteria a sborau ffyngaidd yn hawdd iawn gan eu bod yn anweledig i'r llygad noeth. |





© Gemma Rose-NWWT



© Awdurdod Parc Cenedlawthol Eryri



© CCW

Enghreifftiau o gyfryngau y gall rhywogaethau ymledol ledaenu, e.e. gwerthu planhigion unigol, hadau, darnau ar beiriannau a biofaeddu.

## Pecyn bioddiogelwch personol

I ddechrau bod yn fwy ymwybodol o fioddiogelwch, y cyfan sydd arnoch ei angen yw brwsh caled a dŵr. Gallwch chi roi pecyn bioddiogelwch at ei gilydd yn gyflym ac yn rhad gan ddefnyddio eitemau sydd ar gael yn hawdd o'ch archfarchnad neu siop leol. Yn ddelfrydol, dylai pecyn bioddiogelwch sylfaenol gynnwys y canlynol:

- Bocs storio plastig
- Cyflenwad o ddŵr glân (5 litr)
- Brwsh caled
- Teclyn pigo carnau neu sgrafell gwadnau esgidiau
- Brwsh neu sbwng
- Tywelion papur neu hancesi papur gwlyb

Gallwch ei wneud yn fwy cynhwysfawr drwy ychwanegu'r canlynol:

- Diheintydd
- Cynhwysydd gwrth-anwedd ar gyfer diheintydd
- Gwarchodwyr llygaid a dwylo
- Chwistrellydd cludadwy
- Bagiau y gellir eu hailwerthu
- Dillad, esgidiau ac offer dyblyg
- Bagiau plastig gyda chlymau ar gyfer dillad / PPE wedi'u llygru

Mae'n bwysig iawn ystyried eich dillad: Oes modd eu glanhau'n hawdd? Oes unrhyw ddeunyddiau y gallai rhywogaethau ymledol lynu wrthynt yn rhwydd?

### Ystyriaethau bioddiogelwch

- Deall risgiau eich safle a'ch gweithgaredd; mae cwblhau a gweithredu asesiad risg bioddiogelwch yn ffordd dda o wneud hyn
- Cynllunio eich ymweliadau o'r rhai lleiaf peryglus i'r rhai mwyaf peryglus, gan sicrhau mai'r safle risg uchaf yw eich ymweliad olaf mewn diwrnod
- Ceisio osgoi ardaloedd lle mae da byw a risgiau hysbys
- Sicrhau cyn lleied o fynediad â phosibl
- Peidio â mynd â cherbydau ar y safle (os oes modd), cadw at draciau wedi'u sefydlu a pharcio ar lawr caled
- Cyrraedd a gadael y safle bob amser gydag esgidiau, offer a cherbydau glân
- Symud deunyddiau (e.e., pridd, deunydd organig, hadau ac ati) o'r safle dim ond pan mae hynny'n gwbl angenrheidiol ac mewn ffordd fioddiogel a chyfreithlon
- Cario eich pecyn bioddiogelwch gyda chi bob amser a gwneud defnydd o unrhyw gyfleusterau bioddiogelwch ar y safle

Gallwch gael gwybod mwy am fioddiogelwch personol yma.





## Asesiadau risg bioddiogelwch

Mae atal rhywogaethau ymledol rhag cael eu cyflwyno a sefydlu yn y gwyllt yn brif ffocws yn strategaeth rhywogaethau estron ymledol Prydain Fawr[9]. Bioddiogelwch yw ein llinell amddiffyn gyntaf wrth atal lledaeniad rhywogaethau ymledol. Unwaith y byddant wedi'u cyflwyno ac wedi sefydlu, gallant fod yn hynod gostus i'w rheoli a / neu eu dileu. Mae Defra wedi lansio dwy fenter bioddiogelwch: Mynd at Wraidd y Mater a Edrych-Golchi-Sychu, i godi ymwybyddiaeth o effeithiau rhywogaethau ymledol ac annog arferion bioddiogelwch da.

### Sut i asesu risg bioddiogelwch

Pan fyddwch chi'n cynnal digwyddiad neu weithgaredd, mae'n hanfodol ystyried bioddiogelwch a sicrhau nad yw rhywogaethau ymledol yn cael eu lledaenu'n anfwriadol. Mae asesiadau risg bioddiogelwch yn eich galluogi chi i ddeall a lliniaru'r risgiau a gellir eu hymgorffori'n hawdd yn eich asesiad risg presennol. Edrychwch ar ein templed asesiad risg am enghraifft.

**Mae'n bwysig ystyried eich gweithgaredd, eich safle a'ch offer;** mae hyn hefyd yn wir os ydych chi'n defnyddio contractwyr. Wedyn gallwch benderfynu ar eich lefel risg a pha fioddiogelwch sydd arnoch ei angen:



© NWWT

| | |
|---|---|
| **Risg isel** | Gweithgareddau sy'n annhebygol o ddod ar draws rhywogaethau ymledol, e.e., arolygu ardal heb unrhyw gofnod o rywogaethau ymledol |
| **Risg ganolig** | Gweithgareddau gyda siawns o ddod ar draws rhywogaethau ymledol, e.e., croesi tir i gael mynediad i safle |
| **Risg uchel** | Gweithgareddau a fydd yn debygol neu'n bendant yn dod ar draws rhywogaethau ymledol, e.e., arolwg rhywogaethau ymledol neu roi camau rheoli ar waith |

9 Strategaeth Rhywogaethau Estron Ymledol Prydain Fawr, 2015

## Asesu gweithgaredd:

- Beth yw'r gweithgaredd? A yw'n risg uchel? Os felly, oes posib newid y drefn i leihau lefel y risg?
- Faint o bobl sydd eu hangen i gyflawni'r gweithgaredd?
- Allwch chi leihau'r amser sydd ei angen ar y safle? E.e., allwch chi baratoi unrhyw beth cyn cyrraedd y safle?

## Asesu safle:

| | |
|---|---|
| **Safle** | Pa beryglon sydd ar y safle? e.e., oes afon?<br>Allwch chi gyflawni rheolaeth neu weithgareddau mewn trefn benodol i leihau risg? |
| **Cyfleusterau** | Oes ardaloedd o lawr caled?<br>Oes pecyn neu orsaf bioddiogelwch ar y safle?<br>Oes dŵr glân ar gael ar y safle? |
| **Oes unrhyw rywogaethau ymledol hysbys ar y safle?** | Oes unrhyw rywogaethau ymledol yn bresennol ar y safle neu yn yr ardal gyfagos? Os felly, ai hanesyddol neu ddiweddar yw'r cofnodion hyn?<br>Gwirio cofnodion rhywogaethau ymledol presennol – Atlas NBN porthol INNS Cymru, iRecord, Canolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol. |
| **Oes pridd neu ddeunydd organig yn cael ei symud?** | Oes gennych chi gynllun ar gyfer delio â phridd a all gynnwys hadau, rhisomau neu egin eraill?<br>Oes gennych chi gynllun ar gyfer delio â llystyfiant gwastraff?<br>Rhaid trin deunydd organig sy'n cynnwys rhywogaethau ymledol fel gwastraff wedi'i lygru a dim ond unigolion trwyddedig ddylai gael gwared arno o'r safle |
| **Pwyntiau mynediad a llwybrau** | Oes posib osgoi mynediad i ardaloedd risg uchel?<br>Ydych chi'n gwybod pa lwybr sy'n cynnig y risg leiaf o drosglwyddo / lledaenu? |
| **Ymweliadau** | Ydych chi'n bwriadu ymweld â sawl safle mewn diwrnod? Os felly cynlluniwch eich ymweliadau fel eich bod yn mynd i'r safle risg uchaf olaf. |
| **Tymor** | Ydi'r risgiau ar eich safle yn uwch ar rai adegau o'r flwyddyn? Os felly, allwch chi osgoi ymweld pan fydd y rhywogaethau ymledol yn fwyaf tebygol o ledaenu, e.e., yn ystod hadu yn yr haf / hydref? |


## Offer:

| | |
|---|---|
| **Dillad ac offer** | Ydi eich dillad a'ch offer wedi'u glanhau a'u sychu'n drylwyr cyn eu defnyddio?<br>A ydynt yn hawdd eu glanhau?<br>Oes arnoch chi angen offer / dillad dyblyg i osgoi llygru a lledaenu?<br>Oes gennych chi'r offer glanhau priodol / digon o ddŵr ar gyfer y gweithgaredd / safle?<br>Oes arnoch chi angen diheintydd? |
| **Cerbydau** | Ydi eich cerbyd yn lân ac yn rhydd o unrhyw fwd / deunydd planhigion?<br>Ble ydych chi'n mynd i barcio? A fydd ar lawr caled?<br>Oes cyfleuster golchi ar gael ar y safle? |

## Lefelau risg bioddiogelwch

Bydd lefel y bioddiogelwch sydd ei angen yn amrywio yn dibynnu ar y gweithgaredd a'r safle. Ar gyfer risgiau bioddiogelwch uchel efallai y bydd angen mesurau penodol.

Gall lefel risg y safle newid gyda gwybodaeth newydd, mae hyn yn cynnwys ar ôl i'r gwaith ddechrau. Efallai y bydd angen adolygu mesurau bioddiogelwch ar unrhyw adeg, yn enwedig os oes risg anhysbys yn codi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y gweithdrefnau bioddiogelwch yn yr adran arferion bioddiogelwch gorau isod.



## Arferion bioddiogelwch gorau

Mae arferion bioddiogelwch gorau yn cyfeirio at y gweithdrefnau sydd, o'u cyflawni'n gywir, yn sicrhau bioddiogelwch effeithiol. Mae gwybodaeth a dealltwriaeth o fioddiogelwch yn datblygu'n gyson; felly, efallai y bydd angen i chi addasu eich gweithdrefnau bioddiogelwch a'ch arfer gorau. Gellir gweithredu mesurau bioddiogelwch yn seiliedig ar eich gweithgaredd a lefelau risg safle. Ond gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn defnyddio dulliau Gwirio-Glanhau-Sychu, hyd yn oed mewn ardaloedd risg isel!

### Risg isel

Gweithgareddau sydd â siawns annhebygol o ddod ar draws risg bioddiogelwch. Yn nodweddiadol yn cael eu cwblhau ar lawr caled neu angen ychydig iawn o gysylltiad â'r amgylchedd.

#### Gweithdrefnau bioddiogelwch risg isel

- Gwisgwch esgidiau a dillad y gellir eu glanhau'n hawdd
- Glanhewch esgidiau gan sicrhau eu bod yn rhydd o bridd a malurion organig ar ôl eu defnyddio
- Ewch â'r offer angenrheidiol i'r safle yn unig a sicrhau ei fod yn rhydd o ddeunydd organig
- Sicrhewch bod gennych chi eich pecyn bioddiogelwch personol (mae angen brwsh caled a theclyn pigo carnau neu sgrafell arnoch o leiaf)
- Dim ond y rhannau o'r safle sydd eu hangen ar gyfer y gweithgaredd y dylech fynd iddynt

### Risg ganolig

Gweithgareddau gyda siawns o ddod ar draws risg bioddiogelwch. Yn nodweddiadol, angen mynediad drwy lwybrau risg uchel neu ganolig neu eu gwneud yn / neu o amgylch dŵr, lle nad oes modd osgoi dod i gysylltiad â dŵr.

#### Gweithdrefnau bioddiogelwch risg ganolig

- Dilynwch y gweithdrefnau bioddiogelwch risg isel
- Ystyriwch sefydlu gorsaf bioddiogelwch sylfaenol ar y safle, gan ganiatáu i bawb lanhau eu hesgidiau'n iawn cyn mynd i mewn ac allan o'r safle
- Glanhewch yr holl offer yn drylwyr cyn gadael y safle
- Lle bo modd, peidiwch â mynd â cherbydau ar y safle. Os oes angen cerbyd, glanhewch ef cyn gadael a chael gwared ar unrhyw fwd a malurion organig, rhowch sylw manwl i deiars a bwâu'r olwynion
- Cynlluniwch eich gweithgareddau a'ch ymweliadau fel eich bod yn mynd i'r ardal neu'r safle risg uchaf olaf



© NWWT



© Ian Doyle Angling Trust - Cheshire Lakes


© NWWT



© Angling Trust - Tamar Lake

Esiamplau o orsafoedd bioddiogelwch

## Risg uchel

Gweithgareddau gyda siawns bendant o ddod ar draws risg bioddiogelwch. Yn nodweddiadol mae angen mynediad i ardaloedd sy'n cynnwys risg bioddiogelwch ac sy'n cynnwys rheoli rhywogaethau ymledol wedi'u targedu yn ystod cyfnodau risg uchel, casglu samplau i'w cymryd oddi ar y safle, neu ddefnyddio peiriannau trwm neu gerbydau trac.

### Gweithdrefnau bioddiogelwch risg uchel

- Dilynwch y gweithdrefnau bioddiogelwch risg isel a chanolig
- Ystyriwch sefydlu gorsaf bioddiogelwch lawn gan gynnwys cyfleuster golchi
- Glanhewch esgidiau a dillad allanol rhwng safleoedd a'u chwistrellu â diheintydd nes ei fod yn diferu oddi arnynt (sicrhewch bod hyn yn cael ei wneud ar lawr caled oddi wrth ddyfrffyrdd, gellir trochi esgidiau mewn diheintydd)
- Glanhewch a diheintiwch yr holl offer a'r cyfarpar cyn gadael y safle
- Cadwch at draciau caled sydd wedi'u sefydlu
- Tynnwch unrhyw fwd a malurion organig oddi ar yr olwynion a bwâu'r olwynion a'u chwistrellu gyda diheintydd, lle bo modd dylech osgoi mynediad i gerbydau a pharcio oddi ar y safle.
- Os yw'r safle ar agor i'r cyhoedd ystyriwch gau neu ailgyfeirio llwybrau troed
- Datblygwch gynllun bioddiogelwch manwl

### Diheintydd

Gall diheintydd fod yn ddefnyddiol os ydych chi wedi dod i gysylltiad ag unrhyw bathogenau neu glefydau, fodd bynnag, nid yw'n effeithiol yn erbyn y rhan fwyaf o rywogaethau ymledol. Os ydych chi'n ystyried defnyddio diheintydd bydd angen y canlynol:

- Asesiad risg
- Asesiad Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) – gwarchodwyr llygaid a llaw
- Hefyd mae angen i chi ystyried gwaredu

Cyn ei roi, dylid cael gwared ar unrhyw falurion organig a mwd. Dim ond ar ardaloedd gwastad, oddi wrth ddyfrffyrdd, ddylid defnyddio diheintyddion, peidiwch â gadael i unrhyw ddiheintydd olchi i mewn i ddraeniau dŵr arwyneb neu ffynhonnau. Dilynwch y cyfarwyddiadau gweithgynhyrchu bob amser.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddiheintyddion sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yn erbyn pathogenau anifeiliaid yn y DU gan Defra

### Dŵr poeth

Mae gosod offer a dillad mewn dŵr poeth (>40°C) am 15 munud yn effeithiol i ladd planhigion ymledol ac infertebrata, gan gynnwys corchwyn Awstralia (*Crassula helmsii*) a berdysyn rheibus (*Dikerogammarus villosus*).

Er nad yw hyn yn debygol o fod yn ymarferol mewn llawer o lefydd, gallech ystyried golchi eich dillad ar dymheredd o 40°C neu uwch pan fyddwch yn dychwelyd o safle neu weithgaredd rhywogaethau ymledol.

Bioddiogelwch

## Ymgyrchoedd Cenedlaethol

### Edrych – Golchi – Sychu

Mae'r ymgyrch Edrych-Golchi-Sychu yn rhoi cyngor syml ond hanfodol i ddefnyddwyr dŵr hamdden ac yn hyrwyddo glanhau offer wrth symud rhwng safleoedd. Mae cyngor bioddiogelwch penodol wedi'i ddatblygu ar gyfer pysgotwyr, cychwyr, rhwyfwyr, a digwyddiadau. Fodd bynnag, gellir a dylid priodoli'r egwyddorion sy'n sail i Gwirio-Glanhau-Sychu i bob agwedd ar fioddiogelwch, os ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â dŵr ai peidio.

**EDRYCH** ar eich offer, eich cwch a'ch dillad ar ôl gadael y dŵr am unrhyw fwd, anifeiliaid dŵr, neu ddeunydd planhigion. Tynnwch unrhyw beth rydych chi'n dod o hyd iddo a'i adael ar y safle

**GOLCHI** bopeth yn drylwyr cyn gynted ag y gallwch chi, gan roi sylw i ardaloedd sy'n llaith neu'n anodd eu cyrraedd. Defnyddiwch ddŵr poeth os yw'n bosibl

**SYCHU** bopeth am gyhyd ag y gallwch chi cyn ei ddefnyddio yn rhywle arall. Gall rhai planhigion ac anifeiliaid ymledol oroesi am dros bythefnos mewn amodau llaith



© NWWT

Os oes modd, dylech adael popeth i sychu am o leiaf 48 awr yng ngolau'r haul. Mae sychu eich dillad a'ch offer yn drylwyr yn hanfodol oherwydd gall rhai rhywogaethau, fel berdys angheuol, oroesi mewn amodau llaith am wythnosau. Fodd bynnag, nid yw sychu yn gweithio i bob rhywogaeth. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod corchwyn Awstralia wedi goroesi ac yn dod yn ôl yn fyw ar ôl cyfnodau sych hir.

**ATAL YR YMLEDIAD**

# Ymgyrchoedd Cenedlaethol

## Mynd at Wraidd y Mater

Sefydlwyd yr ymgyrch Mynd at Wraidd y Mater yn 2010 i godi ymwybyddiaeth o effeithiau andwyol planhigion ymledol ac i annog cael gwared ar ddeunydd planhigion yn briodol. Mae Mynd at Wraidd y Mater wedi datblygu cyngor ar gyfer planhigion gardd a dŵr ac awgrymiadau i fanwerthwyr.

NABOD EICH PLANHIGION: dewiswch y planhigion cywir ar gyfer eich gardd, pwll, acwariwm, a nodweddion dŵr

STOPIO RHAG YMLEDU: cadwch eich planhigion yn eich gardd, peidiwch â'u plannu, na chaniatáu iddynt dyfu, yn y gwyllt

COMPOSTIO Â GOFAL: rhaid i chi gael gwared ar blanhigion, gwreiddiau, chwyn, hadau a phennau hadau nad ydych eu heisiau yn gyfrifol

MYND AT WRAIDD Y MATER

## Cadwch y cyfan yn lân

Mae 'Cadwch y cyfan yn lân' yn ymgyrch bioddiogelwch sydd â'r nod o roi cyngor ar weithgareddau a chadw ein mannau gwyrdd yn rhydd o glefydau planhigion. Mae Keep it Clean wedi datblygu cyngor i weithwyr proffesiynol y diwydiant a'r cyhoedd.

Think kit: dechreuwch gydag offer glân bob amser a thynnu unrhyw bridd a malurion oddi ar esgidiau a dillad cyn gadael y safle. Glanhewch a diheintiwch offer yn rheolaidd a rhwng safleoedd.

Think transport: osgowch yrru cerbydau oddi ar y ffordd a chael gwared ar unrhyw groniad o bridd a malurion. Os oes modd, parciwch ar lawr caled. Gwiriwch gerbydau a pheiriannau am bridd a malurion cyn caniatáu mynediad. Os oes modd, glanhewch gerbydau a pheiriannau cyn mynd i mewn i safleoedd a'u gadael.

Think trees: dewiswch stoc plannu o feithrinfeydd sydd â mesurau bioddiogelwch cadarn, y rhai sy'n rhydd o glefydau a rhywogaethau ymledol. Rhaid monitro stoc newydd am arwyddion o glefyd a rhoi gwybod i TreeAlert os oes amheuaeth o blâu a chlefydau.

KEEP IT CLEAN

## Cael gwared ar rywogaethau ymledol

Mae cael gwared ar rywogaethau ymledol yn gywir yn hanfodol i atal unrhyw ledaeniad pellach. Yn gyffredinol, mae'n well cael gwared ar ddeunydd planhigion drwy gompostio, llosgi neu gladdu ar y safle. Fel dewis arall, gellir cludo a chael gwared ar ddeunydd planhigion mewn safle tirlenwi trwyddedig a chaniatâd. Fodd bynnag, gallai hyn arwain at ymlediad anfwriadol. Mae cael gwared ar rai rhywogaethau yn cael ei reoleiddio, fel y rhai a restrir fel Gwastraff Peryglus e.e. clymog Japan (*Reynoutria japonica*). Edrychwch ar ganllawiau rhywogaeth-benodol bob amser a gellir cael cyngor ar y mesurau gwaredu cywir a'u rheoliadau gan eich tîm amgylcheddol lleol yn CNC.

> Gallai methu â chael gwared ar rywogaethau ymledol yn gyfreithlon ac yn ddiogel arwain at erlyniad. Gwiriwch y canllawiau bob amser neu ofyn am gyngor os ydych chi'n ansicr.

## Hyfforddiant ac adnoddau e-ddysgu

Am enghreifftiau o hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol ar fioddiogelwch, cliciwch yma.

## Byddin Dinasyddion Bioddiogelwch

Mae byddin dinasyddion bioddiogelwch yn brosiect peilot gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i ddatblygu rhwydwaith o 'hyrwyddwyr bioddiogelwch' ledled Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd maen nhw'n bwriadu darparu'r sgiliau i 'hyrwyddwyr' o Grwpiau Gweithredu Lleol ar draws Gogledd Cymru i hyfforddi eu cymuned leol mewn arferion atal a bioddiogelwch gorau. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan cysylltwch â Swyddog Bioddiogelwch YNGC.

Os ydych chi wedi eich lleoli yn ne neu ganolbarth Cymru a bod gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am fioddiogelwch cysylltwch â ni.

Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn darparu hyfforddiant bioddiogelwch hefyd. I gael gwybod mwy cysylltwch â'r Tîm INNS ar: info@northwaleswildlifetrust.org.uk



© NWWT

# Codi Ymwybyddiaeth




© Tomos Jones

# Codi ymwybyddiaeth

Bydd effeithiau rhywogaethau ymledol yn parhau i gynyddu oni bai ein bod yn mynd i'r afael â hwy drwy ddull cynaliadwy a chydweithredol o weithredu. **Dyna pam rydyn ni angen eich cefnogaeth chi!** Plîs helpwch ni i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol a'u heffeithiau yng Nghymru i wella dealltwriaeth y cyhoedd.

## Ymgyrchu a negeseuon allweddol

Mae ychydig o ymgyrchoedd cenedlaethol yng Nghymru a Phrydain Fawr sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol a hybu bioddiogelwch. Er enghraifft, yr Wythnos Rhywogaethau Ymledol, sy'n cael ei chynnal yn flynyddol yn y Gwanwyn.

### Ydych chi'n mwynhau garddio?

Mae planhigion addurnol wedi cael eu cyflwyno ers canrifoedd i roi pleser i arddwyr. Yn ogystal â bod yn **brydferth,** gallant gefnogi **bioamrywiaeth** mewn gerddi a bod o fudd i'n **hiechyd meddwl** ni. Fodd bynnag, mae nifer cymharol fach o blanhigion addurnol wedi dianc i'r gwyllt, ac maent yn parhau i wneud hynny, a gallant ddod yn ymledol.

Dilynwch y tri 'chyngor doeth' yma sydd wedi'u datblygu gan GB NNSS i **Fynd at Wraidd y Mater** ac **Atal y Lledaeniad** ar gyfer rhywogaethau ymledol yn y gwyllt.

Mwy o wybodaeth yma.

## Rhywogaethau ymledol:

Mae rhywogaethau ymledol yn rhywogaethau anfrodorol sydd wedi'u cyflwyno'n fwriadol neu'n anfwriadol y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol gan bobl. Maent wedi'u nodi fel un o'r pum prif sbardun ar gyfer colli bioamrywiaeth yn fyd-eang gan IPBES[1]. Gall eu hymlediad achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi a'n hiechyd.

Cyfeirir at rywogaethau anfrodorol ymledol (INNS) hefyd fel Rhywogaethau Estron Ymledol (IAS). Yma rydym yn cyfeirio atynt fel rhywogaethau ymledol. Mwy o wybodaeth ar gael ar ein tudalen we.



Ffigysen sur (*Carpobrotus edulis*)

## Ydych chi'n mwynhau gweithgareddau dŵr hamdden?

Mae llawer o rywogaethau ymledol wedi cael eu cyflwyno i gyrff o ddŵr, fel llynnoedd ac afonydd, gyda rhai yn **dianc** yn ddamweiniol o gyfleusterau dyframaethu ac yn cael eu lledaenu gan ddefnyddwyr dŵr hamdden. Gall rhywogaethau ymledol achosi problemau amgylcheddol difrifol ac, mewn rhai achosion, problemau na ellir eu gwyrdroi. Gallant ymyrryd â'r gweithgareddau rydych chi'n eu mwynhau, fel **pysgota a rhwyfo,** gan gyfyngu ar fynediad a mwynhad.

Mae **'Edrych-Golchi-Sychu'** yn ymgyrch bioddiogelwch i amddiffyn bywyd gwyllt a'r amgylchedd rhag rhywogaethau ymledol. Dilynwch y **tri cham syml** yma a helpu i fynd i'r afael â'r bygythiad a achosir gan rywogaethau ymledol

Mwy o wybodaeth yma.

ATAL YR YMLEDIAD

## Ymledwyr Ecosystem Invaders

Mae Ymledwyr Ecosystem yn ymgyrch sy'n cael ei gweithredu yng Nghymru gan Rwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru (WaREN). Nod yr ymgyrch oedd codi ymwybyddiaeth o rywogaethau ymledol a'u heffeithiau yng Nghymru i wella dealltwriaeth y cyhoedd. Darganfod mwy am Ymledwyr Ecosystem yma.

YMLEDWYR ECOSYSTEM INVADERS





Llyfrothen uwchsafn (*Pseudorasbora parva*)

## Fideos esboniadol dwyieithog

Rydyn ni wedi cynhyrchu fideos esboniadol dwyieithog i amlinellu'r bygythiadau y mae rhywogaethau ymledol yn eu hachosi, yn ogystal â'r camau allweddol y gall y cyhoedd eu cymryd i atal eu lledaeniad:

**Ffilm 1:**
Eglurhad cyffredinol




English film | Welsh film

**Ffilm 2:**
Eglurhad i arddwyr




English film | Welsh film

**Ffilm 3:**
Eglurhad gweithgareddau dŵr hamdden





English film | Welsh film

## Taflenni dwyieithog

Rydyn ni hefyd wedi cynhyrchu taflenni dwyieithog i egluro sut gall garddwyr, defnyddwyr dŵr hamdden, a'r cyhoedd helpu i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol.

**Pamffled 1:**
Cyffredinol





Lawrlwytho yma

**Pamffled 2:**
Garddwyr




Lawrlwytho yma

**Pamffled 3:**
Gweithgareddau dŵr hamdden




Lawrlwytho yma

# Beth am drechu rhywogaethau ymledol yng Nghyrmu!

**‘Gwnewch y pethau bychain’**

- Dewi Sant

**‘Do the little things’**

- Saint David

Fel yr awgrymodd Dewi Sant, does dim un ymrwymiad yn rhy fach. Mae'r holl bethau bychain rydyn ni'n eu gwneud i helpu i fynd i'r afael â rhywogaethau ymledol yn cyfrannu ac, yn bwysicach na dim, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael hwyl!



© Wye Valley AONB

Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

WaREN
Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru
Wales Resilient Ecological Network




© Jess Minett

WaREN webpage